Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) | | STANDING ADVISORY COUNCIL FOR RELIGIOUS EDUCATION (SACRE) |
| DYDD MAWRTH, 9 GORFFENNAF 2019 AM 2.00 O'R GLOCH | | TUESDAY, 9 JULY 2019 AT 2.00 PM |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

Glyn Haynes, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Alun Roberts

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch/Rev Kate McClelland (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Sedd Wag/Vacant Seat (Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents), Sedd Wag/Vacant Seat (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch), Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch/Newborough), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern), Sedd Wag/Vacant Seat

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Mr Rheinallt Thomas

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

- Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2019.

- I drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion.

3 **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG YNYS MÔN 2017/18** (Tudalennau 9 - 38)

- Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2017/18 i'w gymeradwyo.

- Arfarnu Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2019/22.

4 **Y CWRICWLWM NEWYDD A SUT FYDD HYN YN EFFEITHIO AR ADDYSG GREFYDDOL?**

Derbyn diweddariad ar Y Cwricwlwm Newydd i Gymru (dolen ynghlwm).

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022

5 **SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 39 - 72)

Cyflwyno gwybodaeth am arolygiadau Estyn a gynhaliwyd yn yr ysgolion canlynol:-

- Ysgol Gynradd Amlwch
- Ysgol y Graig, Llangefni
- Ysgol Gymuned Pentraeth

6 **HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION** (Tudalennau 73 - 84)

Cyflwyno adroddiadau hunan arfarnu AG gan yr ysgolion canlynol:-

- Ysgol Y Talwrn
- Ysgol Pentraeth
- Ysgol Gynradd Amlwch

7 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU (CYSAGAUC)** (Tudalennau 85 - 102)

Cyflwyno cofnodion drafft cyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 26 Mawrth 2019.

8 **GOHEBIAETH**

Derbyn unrhyw ohebiaeth.

## 9 CYFARFOD NESAF CYSAG MÔN

Nodi dyddiad cyfarfod nesaf y CYSAG ar 8 Hydref 2019 am 2.00 o’r gloch yp.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror, 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br><br>**Yr Awdurdod Addysg**<br><br>Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Alun W Mummery, Alun Roberts<br><br>**Yr Enwadau Crefyddol**<br><br>Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)<br><br>**Cynrychiolwyr Athrawon**<br><br>Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)<br>Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch) |
| **WRTH LAW:** | Mrs Helen Bebb (Ysgol Uwchradd Porthaethwy) (Cydlynydd AG)<br>Mrs Gwyneth M Hughes (Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiant Addysg) (Clerc y CYSAG)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes<br>Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig)<br>Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig – Cyngor yr Ysgolion Sul) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Ms Lynn Ball - Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro (ar gyfer Eitemau 11 a 12)<br>Mrs Gwennan Roberts (Pennaeth Ysgol Gymuned Rhosybol) (ar gyfer Eitem 3) |

---

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion trist am yr Athro Euros Wyn Jones, aelod o'r CYSAG Ynys Môn, a fu farw'n sydyn yn ddiweddar. Bu iddo gydnabod gwaith ardderchog yr Athro Jones, a'i gyfraniad rhagorol i'r CYSAG dros nifer o flynyddoedd, yn ogystal â'i gyfraniad i'r gymuned a Chymru gyfan. Dywedodd y byddai marwolaeth yr Athro Jones yn golled fawr i holl aelodau'r CYSAG.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Gwilym O Jones ddiddordeb personol mewn

perthynas ag Eitem 6 - Hunan Arfarniad Ysgolion, gan ei fod yn Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol y Fali.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF – 9 HYDREF, 2018

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2018 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**Materion yn Codi:-**

- Yn dilyn cais gan y CYSAG i Gymdeithas CYSAGau Cymru gynnwys Addoli ar y Cyd ar raglen ei gyfarfod nesaf, cyfeiriodd y Cadeirydd at eitem 9 cofnodion cyfarfod diwethaf Cymdeithas CYSAGau Cymru, a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2018, sy'n datgan fod aelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru wedi paratoi dogfen ar Addoli ar y Cyd fydd yn cael ei chylchredeg i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Adroddodd y Cadeirydd y bydd modd i'r Pwyllgor benderfynu a roddwyd sylw i'w pryderon ar ôl i'r CYSAG dderbyn copi ohoni.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at eitem 7 yng nghofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru, sy'n datgan fod y Gymdeithas wedi ysgrifennu at Mr Arwyn Thomas, Prif Weithredwr GwE, i fynegi pryder fod GwE wedi tynnu cefnogaeth arbenigol Addysg Grefyddol oddi ar y CYSAGau.
- Cadarnhaodd Clerc y CYSAG ei bod wedi cysylltu ag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gofyn i'r Eglwys enwebu aelod fel cynrychiolydd ar y CYSAG, a disgwylir am ymateb ganddynt.
- Adroddodd y Clerc fod y Pennaeth Dysgu wedi cytuno y bydd Ms Meinir Hughes, cyn Ymgynghorydd Her GwE, yn cynorthwyo Mrs Helen Bebb a Mrs Heledd Hearn i baratoi Adroddiad Blynyddol y CYSAG ar gyfer 2018/19.
- Nodwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc yn cynnal trafodaethau ynghylch trefniadau i fynychu cyfarfod Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Ynys Môn.
- Nodwyd fod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth am rôl a chyfrifoldeb y CYSAGau yn y sector cynradd.

  **Gweithredu:**

  **Gwahodd y Cadeirydd i fynychu'r Fforwm Ysgolion Cynradd er mwyn profi arfer dda yn ysgolion Ynys Môn, yn ogystal â chodi proffil y CYSAG yn y sector.**

- Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi ysgrifennu at Ysgol Rhosybol, Ysgol Bryngwran ac Ysgol Gynradd Llanfairpwll i'w llongyfarch ar eu llwyddiant ar ôl iddynt dderbyn adroddiadau arolygiadau Estyn ardderchog.
- Mewn ymateb i'r camgymeriad yn y papur arholiad Lefel A Addysg Grefyddol cyfrwng Cymraeg, cadarnhaodd Mrs Heledd Hearn fod pob ysgol uwchradd yn Ynys Môn wedi e-bostio CBAC er mwyn mynegi eu pryderon.

  Nodwyd fod athrawon wedi derbyn ymatebion cyffredinol gan CBAC yn cydnabod y camgymeriad, gan ddweud y byddai'r amryfusedd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth farcio papurau. Cyfeiriodd y Cadeirydd at sylwadau

Andrew Pearce yn eitem 10, cofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru, a oedd yn nodi:-

*"Ymdriniwyd yn effeithiol iawn â'r mater, ac ni roddwyd y disgyblion dan anfantais ac ni ddyfarnwyd graddau is iddynt o ganlyniad i'r sefyllfa".*

Yn groes i sylw Mr Pearce, roedd cynrychiolwyr athrawon ar y CYSAG o'r farn fod y disgyblion wedi dioddef oherwydd y camgymeriad.

**3. CYFLWYNIAD - YSGOL GYMUNED RHOSYBOL**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Gwennan Roberts, Pennaeth Ysgol Gymuned Rhosybol, i'r cyfarfod ac fe'i gwahoddwyd i roi cyflwyniad ar waith yr ysgol mewn perthynas â'r ddarpariaeth Addysg Grefyddol.

Adroddodd y Pennaeth fod yr ysgol, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi bod yn paratoi trosolwg o sut i symud ymlaen gyda'r cwricwlwm AG newydd a'i 4 egwyddor, a ddyfeisiwyd gan yr Athro Graham Donaldson.

Cafwyd cyflwyniad diddorol gan y Pennaeth a oedd yn rhoi gwybodaeth am y gwaith a'r gweithgareddau a gyflawnir yn yr ysgol. Nodwyd fod y plant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol e.e. 'Llyfr Agored', gwasanaeth boreol, gweithgareddau tymhorol, prosiectau cymunedol, ymweld â llefydd o ddiddordeb ayb. Cyflwynwyd enghreifftiau da i'r CYSAG o sut mae disgyblion yn ymwneud â'i gilydd ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Maent yn cynnwys prosiectau ysgol, lle mae'r plant yn rhannu adnoddau, dangos empathi ac awydd i helpu eraill, a dysgu am gredoau a thraddodiadau crefyddol eraill.

Tynnodd y Pennaeth sylw at bwysigrwydd rhoi llais i ddisgyblion, a chyfle i fod yn annibynnol ac yn gyfrifol am eu gweithredoedd.

Diolchodd y Cadeirydd y Pennaeth am gyflwyniad diddorol ac am rannu arferion da'r ysgol gyda'r CYSAG.

**PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad a'r gwaith ardderchog y mae Ysgol Gymuned Rhosybol yn ei wneud.**

**4. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG YNYS MÔN 2017/18**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol drafft 2017/18 y CYSAG i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd y Cadeirydd y byddai Crynodeb y Cadeirydd yn cael ei gyflwyno maes o law, ar ôl cwblhau'r adroddiad drafft terfynol.

Nodwyd fod disgyblion oedd yn astudio AG yn CA4 a CA5 wedi perfformio'n dda, gyda thri chwarter yn ennill graddau A-C, a phob disgybl yn CA5 llwyddo.

Nodwyd bod AG yn bwnc poblogaidd, gan fod traen o ddisgyblion sy'n astudio'r cwrs TGAU yn dewis y pwnc ar gyfer Lefel A. Nodwyd fod y canlyniadau yn

gadarnhaol, o ystyried yr heriau'n gysylltiedig â'r cwricwlwm a diffyg yr adnoddau dwyieithog sydd ar gael i athrawon, ac mewn cymhariaeth â'r niferoedd isel sy'n dewis pynciau yn y Dyniaethau.

Gofynnodd y CYSAG a oedd camgymeriadau yn y tabl yn Adran 2.3.3 yr adroddiad ynglŷn ag arolygiadau ysgolion cynradd Estyn? Cytunodd y CYSAG i godi'r mater gyda'r swyddog sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2017/18, fel y'i cyflwynwyd.**
- **Y Clerc i godi pryderon y CYSAG ynghylch y tabl yn Adran 2.3.3 yr adroddiad gyda'r swyddog sy'n paratoi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18.**
- **Bod fersiwn ddiwygiedig o Gyfansoddiad CYSAG, ynghyd ag unrhyw newidiadau a argymhellir gan y CYSAG, yn cael eu hanfon at y swyddog perthnasol cyn diwedd mis Chwefror, er mwyn i'r adroddiad drafft terfynol gael ei baratoi a'i gylchredeg i aelodau'r CYSAG.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

**5. SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc i'r CYSAG, yn ymgorffori gwybodaeth o adroddiadau Arolygiadau Estyn a gynhaliwyd yn Ysgol Talwrn ac Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, i'r CYSAG eu hystyried.

Nodwyd fod Estyn wedi adrodd fod safonau'r ddarpariaeth AG ac Addoli ar y Cyd yn dda yn y ddwy ysgol.

Adroddodd Mrs Mefys Jones-Edwards mai hi oedd cynrychiolydd yr ysgol yn ystod Arolygiad Estyn yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch a gynhaliwyd yn ddiweddar, ac roedd hi'n falch o fod yn rhan o drafodaethau gydag Ymgynghorwyr Her GwE. Dywedodd fod Estyn, wrth gyfeirio at safonau mewn AG, yn cyfeirio at sgiliau darllen, ysgrifennu a gwybyddol, a thynnodd sylw at y dyfyniadau a ganlyn o'r adroddiad:-

- *Mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus. Maent yn distyllu gwybodaeth berthnasol o ffynonellau amrywiol yn llwyddiannus ac yn dadansoddi testunau yn effeithiol, gan ddod i gasgliadau synhwyrol...*
- *Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn fedrus i gynnwys ac arddull testunau llenyddol...*
- *Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig i ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd...*

Adroddodd Mrs Jones-Edwards ei bod yn falch fod AG yn derbyn sylw dyledus, yn gyfartal â phob un o bynciau eraill y cwricwlwm.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiadau hunanarfarnu.**

**Gweithredu: Dim**

## 6. HUNAN ARFARNIAD YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiadau hunanarfarnu Ysgol Gymuned Rhosybol, Ysgol Llanfairpwll, Ysgol Parc y Bont, Llanddaniel ac Ysgol y Fali i'r CYSAG eu hystyried.

Trafododd y CYSAG y diffyg ymateb cyffredinol gan ysgolion pan ofynnir iddynt gyflwyno adroddiad hunanarfarnu. Gofynnwyd a ddylai'r CYSAG roi pwysau ar ysgolion sydd heb gyflwyno adroddiadau hunanarfarnu i wneud hynny bob dwy flynedd? Nodwyd yn y gorffennol mai'r arferiad oedd i'r CYSAG ofyn i ysgolion a oedd newydd gael eu harolygu gan Estyn i gyflwyno eu hadroddiadau.

Awgrymwyd, oherwydd newidiadau yn y cwricwlwm, fod GwE, yr awdurdod lleol a'r Eglwys yn gweithio gyda'i gilydd i lunio'r model gorau ar gyfer derbyn adroddiadau hunanarfarnu gan ysgolion.

Awgrymodd y Cadeirydd, a **chytunwyd i flaenoriaethu ysgolion sydd heb gyflwyno adroddiadau hunanarfarnu yn y gorffennol**. Nodwyd mai dim ond cyflwyno copi i'r CYSAG sydd angen i ysgolion ei wneud gan ei bod yn ofynnol i ysgolion baratoi'r adroddiadau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys adroddiadau hunanarfarnu ysgolion.**
- **Bod y Cadeirydd yn gofyn am gefnogaeth y Pennaeth Dysgu i symud ymlaen â'r cynnig uchod.**
- **Bod y Clerc a Mrs Anest Frazer yn trafod yr opsiynau gorau ar gyfer symud ymlaen mewn perthynas ag adroddiadau hunanarfarnu ysgolion.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

## 7. CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR

Adolygodd y Pwyllgor Gyfansoddiad y CYSAG.

Nodwyd fod dwy sedd wag o'r enwadau crefyddol ar y CYSAG, sef Undeb Annibynwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Oherwydd diffyg presenoldeb, gofynnwyd ai'r Parch Kate McClelland yw cynrychiolydd yr Eglwys Fethodistaidd ar y CYSAG?

Nodwyd fod un sedd wag ar gyfer cynrychiolydd athrawon o'r sector cynradd ar y CYSAG.

Adroddodd y Clerc y byddai'n cysylltu ag Mrs Amanda Earnshaw, yr athrawes sy'n gyfrifol am AG yn Ysgol Cybi, Caergybi, er mwyn holi a fyddai ganddi ddiddordeb bod yn gynrychiolydd ysgolion cynradd ar y CYSAG.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Diweddaru Cyfansoddiad y CYSAG.**
- **Bod y Clerc yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Undeb Annibynwyr Cymru yn gofyn iddynt enwebu cynrychiolydd o'r Eglwys i fod yn aelod o CYSAG Ynys Môn.**
- **Bod y Clerc yn cysylltu ag Ysgrifennydd yr Eglwys Fethodistaidd i holi a yw'r wybodaeth sydd gan y CYSAG ynghylch ei gynrychiolydd yn gywir.**
- **Y Clerc i wahodd Mrs Amanda Earnshaw i gynrychioli'r sector cynradd ar y CYSAG.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod**

## 8. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod blaenorol Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2018, i'r Pwyllgor eu hystyried.

Cyfeiriodd y Cydlynydd AG at eitem 10 ar y Rhaglen – ymateb Andrew Pearce i adborth ar ganlyniadau Lefel A 2018 CBAC.

Dywedodd y Cydlynydd AG ei bod yn anghytuno â datganiad Mr Pearce, oherwydd er bod y graddau lefel A yn dda iawn, mae ffiniau'r graddau Athroniaeth yn isel iawn yn Lefel A a TGAU. Nodwyd fod y ffiniau presennol ar gyfer derbyn gradd C yn 60%. Llynedd, aeth y ffin gradd C i lawr i 47%, sydd yn gallu bod yn gamarweiniol, gan fod safonau yn gostwng.

Codwyd pryderon oherwydd bod ysgolion yn dal i ddisgwyl am adnoddau dwyieithog ar gyfer maes llafur Lefel A AG. Nodwyd nad oes adnoddau Cymraeg na Saesneg ar gael ar gyfer nifer o unedau'r cwrs Lefel A. Roedd yr athrawon o'r farn ei bod yn siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw i'r mater hwn.

**PENDERFYNWYD y byddai'r Clerc yn anfon e-bost at Arweinydd y Cyngor er mwyn cyfleu pryderon y CYSAG i Mr Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, am ddiffyg adnoddau Cymraeg mewn ysgolion.**

**Gweithredu: Fel y nodwyd uchod**

## 9. GOHEBIAETH

Adroddodd y Cadeirydd ei fod, yn ei rôl fel Cadeirydd y Cyngor Sir a Chadeirydd y CYSAG, wedi anfon e-bost at bob un o Benaethiaid ysgolion cynradd Ynys Môn yn gwahodd ysgolion i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda'r

plant, drwy wneud y pethau bychan i gofio Dewi Sant. Gofynnodd i'r disgyblion adrodd yn ôl i CYSAG am yr hyn a wnaethant.

**10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y CYSAG yn cael ei gynnal am 2.00 pm, dydd Mawrth, 25 Mehefin, 2019.

**11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A (categori 16) y Ddeddf.**

**12. CYNRYCHIOLYDD Y DYNEIDDWYR AR CYSAG YNYS MÔN**

Rhoddodd y CYSAG ystyriaeth i gais i ganiatáu i aelod o'r Grŵp Dyneiddwyr lleol ymuno â CYSAG Ynys Môn.

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymateb gan Mr Richard Speight, Cadeirydd Grŵp Dyneiddwyr Bangor, yn dilyn ei gais am wybodaeth ynghylch aelodaeth y Grŵp. Nodwyd fod gan y Dyneiddwyr 9 aelod lleol, 3 ohonynt yn byw ar Ynys Môn.

Trafododd y CYSAG gais y Dyneiddwyr a gofynnwyd am gyngor y Swyddog Monitro ynghylch yr opsiynau posib.

Ar ôl ystyried cyngor y Swyddog Monitro, **PENDERFYNODD y CYSAG fel a ganlyn:-**

- **Peidio â chefnogi'r penodiad ar y sail ganlynol:-**
  - **Er yn cydnabod cymhwyster posib, nid yw'r ymgeisydd wedi darparu unrhyw wybodaeth i awgrymu fod angen iddynt fod yn aelod er mwyn i CYSAG adlewyrchu'n briodol brif draddodiadau crefyddol Ynys Môn wrth ymgymryd â'i swyddogaethau;**
  - **Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar y ffaith, yn unol â'r wybodaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, mai dim ond tri dilynwr sydd yn byw ar Ynys Môn; a,**
  - **Dim ond cynrychioli eu credoau eu hunain all yr ymgeiswyr ei wneud ac nid, fel yr awgrymir yn y cais, gredoau holl boblogaeth Ynys Môn nad oes ganddynt grefydd.**

- **Bod y Cadeirydd yn anfon e-bost at Mr Richard Speight o Grŵp Dyneiddwyr Bangor (a chopi i Glerc y CYSAG), er mwyn ei hysbysu am benderfyniad y CYSAG.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Ynys Môn
# Medi 2017 – Awst 2018

Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Delyth Molyneux  Ebrill 2017/ Ebrill 2018

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Y Cynghorydd Dylan Rees

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Môn 2017-8
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol
3.7 Cynllun Gweithredu CYSAG Môn 2017-9

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Anrhydedd ydyw unwaith eto, fel Cadeirydd CYSAG Môn, i gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2017/18. Ers adroddiad y llynedd, rydym wedi profi dwy ergyd o ran colli dau aelod allweddol o'r Pwyllgor. Yn gyntaf, collasom wasanaethau ein Clerc profiadol – Mr Gareth Jones, a ymddeolodd ym mis Mai. Yn ail ac yn annisgwyl, fe gollasom arbenigedd amhrisiadwy Mrs Bethan James ein Cynghorydd Her, pan dynnodd GwE (y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) ei gwasanaeth yn ôl ar fyrder ym mis Ebrill. Ar ran y CYSAG, hoffwn ddiolch i'r ddau am eu hymrwymiad hirdymor a'u cefnogaeth ardderchog. Yn ystod ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym dal mewn cyfnod o drawsnewid o ran ceisio sefydlu strwythur a fydd yn sicrhau bod y CYSAG yn parhau i gyflawni ei rôl statudol yn effeithiol.
Mae'n bleser i mi adrodd bod canlyniadau astudiaethau crefyddol disgyblion Môn eleni yn gyffredinol dda, a chalonogol yw gweld bod niferoedd y disgyblion sy'n ymgymryd â'r cyrsiau hyn wedi cynyddu. Cynhwysir manylion llawn ar dudalen saith yr adroddiad.
Fel yr arfer, mae nifer o argymhellion wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad. Bydd yr holl argymhellion hyn yna'n cael eu cynnwys mewn Cynllun Gweithredu newydd ynghyd ag argymhellion allweddol eraill megis y rhai a gynhwysir yn Adroddiad Arolwg diweddar Estyn ar addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.
Ym mis Gorffennaf, gwestiwyd y cyfarfod CCYSAGauC gan CYSAG Môn, ac fe'i cynhaliwyd yn Oriel Môn, Llangefni. Cafwyd presenoldeb uchel yn y cyfarfod, a derbyniwyd adborth cadarnhaol gan aelodau ynglŷn â'r trefniadau a'r eitemau cerddorol a ddarparwyd gan blant o Ysgol y Graig, Llangefni.
Ar lefel genedlaethol, mae llawer o ffocws wedi'i roi ar y cwricwlwm newydd ac ar sut y bydd addysg grefyddol yn cael ei dosbarthu fel rhan o'r maes llafur Dyniaethau newydd yn 2022. Ym mis Medi, ynghyd â dau aelod arall o CYSAG Môn, mynychais weithdy SACRE Gogledd Cymru i drafod datblygiadau yn y cwricwlwm newydd. Dymunol oedd nodi y bydd gan ysgolion gyfle i roi eu stamp eu hunain ar y cwricwlwm oddi fewn i'r fframwaith cenedlaethol. Fodd bynnag, mae llawer mwy o waith i'w wneud er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau mawrion hyn yn ein system addysgol. Daw geiriau Dr Samuel Johnson i gof – "Change is not made without inconvenience, even from worse to better"! [ "Ni ddigwydd newid heb anhwylustod, hyd yn oed o waeth i well"!]
Yn olaf, dymunaf eto gynnig fy niolchgarwch diffuant i'm cyd-aelodau Pwyllgor am eu hymrwymiad drwy'r flwyddyn. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau newydd ein tîm, sef Mrs Gwyneth Hughes (Clerc CYSAG) a Mrs Helen Bebb (Cydlynydd Addysg Grefyddol) am y cymorth a ddarperir ganddynt, ynghyd â chefnogaeth hanfodol Mrs Shirley Jones, ein Swyddog Pwyllgor.

Cynghorydd Dylan Rees
Cadeirydd CYSAG Môn 2017-18

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'*. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol;
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.
- Annog cydweithio rhwng ysgolion i adnabod a chefnogi arferion da

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Yng nghyfarfod **CYSAG Ynys Môn** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templedi a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu ESTYN (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Môn, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau.
Derbyniwyd 2 adroddiad yn unig yn ystod 2017-18, sef 4% o ysgolion Môn.

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o adroddiadau** | 6/53 | 8/53 | 12/53 | 11/53 | 2/47 |
| **% o ysgolion** | 11% | 15% | 22% | 22% | 4% |

| Môn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|

Mae crynodeb o adroddiadau'r 2 ysgol wedi ei nodi isod

**Ysgol Corn Hir ac Ysgol Pentraeth.**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

### Y CYFNOD SYLFAEN

- Mae gallu'r disgyblion i drafod ac i alw i gof yn datblygu yn dda ac erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae bron i bob un yn gallu trafod a gofyn cwestiynau.
- Gwneir defnydd effeithiol o arteffactau
- Gall bron i bob un disgybl siarad am eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen
- Mae tua hanner y disgyblion yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.

### CYFNOD ALLWEDDOL 2

- Mae disgyblion yn cael cyfle i siarad ac i ofyn cwestiynau am brofiadau ei hun, y byd o'i gwmpas ac agweddau ar grefydd.
- Mae mwyafrif o ddisgyblon yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir iddynt.
- Mae cyfle da i ddisgyblion ar draws CA2 drafod amrywiadau credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol ac adnabod sut mae hyn effeithio ar fywydau credinwyr.
- Mae disgyblion yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol ac yn defnyddio geirfa grefyddol yn addas.
- Mae ychydig yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn hyderus.
- Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae'r mwyafrif yn gallu mynegi a chyfiawnhau syniadau a barnau am gwestiynau sylfaenol.
- Mae tua hanner y disgyblion yn gallu nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.
- Mae isafswm o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau yn effeithio ar eu bywyd, ac yn disgrifio sut mae safbwynt pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau hwy.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol.
- Maent wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn dda.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y Cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant.
- Mae ystod eang o brofiadau'n cael eu cynnig
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.
- Mae'r agweddau Crefyddol o fewn y meysydd yn cael eu darparu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Neilltuir amser penodol digonol ar gyfer Addysg Grefyddol ar draws Cyfnod Allweddol 2
- Mae cynlluniau yn fanwl ac yn sicrhau dilyniant gan roi sylw i gwestiynau mawr
- Manteisir ar y cyfleoedd i fynd â'r plant allan ar ymweliadau i Addoldai
- Mae ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 yn gyson dda.

## Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

- Darperir Addoli ar y Cyd sy'n dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol yn ddyddiol.
- Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel dosbarth ac ysgol.
- Archwilir agweddau moesol, ysbrydol a chred tra ar yr un pryd yn meithrin ysbryd cymunedol ac yn hyrwyddo ethos a gwerthoedd.
- Mae defnydd effeithiol o gynlluniau ABCh i fyfyrio ar gwestiynau mawr y byd.
- Mae dealltwriaeth a gwybodaeth o arferion a straeon Cristnogol yn dda.
- Gwneir defnydd effeithiol o ymwelwyr fel Rheithorion a Gweinidogion i gynnal gwasanaethau.
- Gwneir defnydd o ymweliadau i gynnal gwasanaethau yn yr Eglwys e.e. Christingle a'r Pasg.
- Barnwyd bod Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.
- Mae cyfleoedd da i ddatblygu agweddau Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad.

**Camau gweithredu yn codi o'r adroddiadau.**

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- Parhau i ddatblygu cynllun hyfforddiant i gydlynwyr

### 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Am resymau tu hwnt i reolaeth y pwyllgor ni thrafodwyd asesiadau athrawon disgyblion CA3 na chanlyniadau arholiadau allanol CA4 a CA5 yn ystod cyfarfodydd 2017-18.

Fodd bynnag, trafodwyd yn gryno canlyniadau CA4 a CA5 mewn cyfarfod diweddar. Rhoddir crynodeb o'r data isod.

**CA4 [TGAU]**

| Ysgol | Nifer o ddisgyblion | A*-A [%] | A-C [%] |
|---|---|---|---|
| STJA | 31 | 32 | 84 |
| HH | 11 | 9 | 64 |
| YGLl | 36 | 31 | 86 |
| DH | 52 | 35 | 83 |
| Bodedern | 21 | 5 | 66 |

- 151 ymgeisydd o 5 ysgol Môn yn 2017-18, 23 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.
- Mae'r niferoedd dosbarthiadau ar wahân i un ysgol yn hyfyw.
- Mae canlyniadau yn dda. Llwyddodd pob ysgol i dderbyn canlyniadau A-C dros 60% .
- Llwyddodd 3 allan o 5 ysgol i dderbyn canlyniadau A-C dros 80% .
- Mewn 60% o'r ysgolion roedd dros draean o'r disgyblion wedi cyrraedd gradd A*-A .
- 41 disgybl wedi ennill rhagoriaeth A*-A

**CA5 Lefel A**

| School | Number of pupils | A* | A-C | A-E |
|---|---|---|---|---|
| YSTJA | 14 | 7.1 | 100 | 100 |
| HH | 0 | 0 | 0 | 0 |
| YGLl | 10 | 0 | 90 | 100 |
| DH | 13 | 0 | 69 | 100 |
| Bodedern | 5 | 0 | 40 | 100 |

- Yn 2017-18 mae 42 o ddisgyblion wedi astudio'r pwnc hyd at lefel A.
- Mae bron i draean o'r disgyblion sydd wedi sefyll yr arholiad yn TGAU yn dilyn y cwrs Lefel Uwch.
- Mewn un ysgol nid oedd yr un disgybl yn dilyn y pwnc lefel A.
- Llwyddodd pob disgybl i dderbyn gradd A-E.
- Dim ond un disgybl a lwyddodd i gael A* [YSJA].
- Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch oedd â'r nifer fwyaf o ddisgyblion yn dilyn y cymhwyster.
- YSTJ oedd â'r perfformiad gorau o fewn y pwnc yn 2017-18.

Mae argymhellion 2016-17 yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc fel eu bod yn gallu arwain gwelliannau yn eu hysgolion;
- Sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad at ganllawiau ac arferion da a fyddai'n gwella deilliannau addysg grefyddol eu disgyblion ac ansawdd yr addysg grefyddol ac yn adlewyrchu egwyddorion ac argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'.

### 2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Cadarnhaodd y Swyddog Addysg nad oedd unrhyw faterion yn codi o'r arolygiadau a gynhaliwyd yn ysgolion Môn yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd gwybodaeth am arolygiadau 6 ysgol gynradd yn ystod y flwyddyn. Arolygwyd yr ysgolion o dan Fframwaith Arolygu newydd ESTYN.

| **Ysgol** | **Dyddiad** | **Gofal cymorth ac arweiniad (2.3)** *A oes cyfeiriad at: datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?* | | **Profiadau dysgu (2.1)** *A oes cyfeiriad at: Addysg Grefyddol?* | **Gweithio mewn partneriaeth (3.3)** *A oes cyfeiriad at gymunedau crefyddol lleol?* |
|---|---|---|---|---|---|
| Penysarn | Hydref 2017 | ✓ | | × | ✓ |
| Y Fali | Hydref 2017 | × | | × | × |
| Brynsiencyn | Rhagfyr 2017 | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Llanbedrgoch | Ionawr 2018 | × | | × | × |
| Santes Gwenfaen | Ionawr 2018 | ✓ | | ✓ | × |
| Rhosybol | Mawrth 2018 | ✓ | | × | × |

1. Mae'r adroddiadau yn cyfeirio at 'cydaddoli' yn hytrach nag 'addoli ar y cyd'

Nid oedd cyfeiriadau at addysg grefyddol yn adroddiadau ESTYN eleni, ond mae'r adroddiadau yn nodi bod:

- Ysgolion Penysarn a Santes Gwenfaen yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda, tra bod Ysgol Rhosybol yn hyrwyddo'r agweddau hyn yn llwyddiannus iawn.
- Tair o'r ysgolion yn darparu profiadau gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio yn y sesiynau addoli ar y cyd (Penysarn, Llanbedrgoch, Rhosybol).
- Ysgolion Penysarn a Santes Gwenfaen wedi sefydlu partneriaethau priodol gyda chymunedau crefyddol lleol.

### 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mr. Gareth Jones, swyddog addysg Cyngor Ynys Môn yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Môn yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd.

Rhannwyd arferion da yn ystod y flwyddyn drwy estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr ysgol i amlinellu'r profiadau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a ddarperir i'w disgyblion:

- Rhian Jones (pennaeth Ysgol Pencarnisiog): Cyflwyniad ar y camau a gymerwyd gan yr ysgol er mwyn ymateb i argymhelliad ESTYN i *"Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn ymateb yn llawn i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur ar gyfer Addysg Grefyddol* ."
- Mefys Jones, Ymarferydd Arweiniol Rhanbarthol Gwe, a phennaeth adran addysg grefyddol Ysgol Syr Thomas Jones: diweddariad ar ymdrechion athrawon y rhanbarth i gydweithio er mwyn datblygu a rhannu adnoddau dysgu ar gyfer y cwrs Astudiaethau Crefyddol TGAU newydd (CBAC).

Hyd at Ebrill 2018, roedd Cyngor Ynys Môn yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAGau Môn ac i gynrychioli CYSAG Môn mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Yn cyfarfod CYSAG Môn, 18 Ebrill 2018, adroddodd y Swyddog Addysg nad oedd cefnogaeth GwE i'r CYSAG yn rhan o'r cytundeb gyda'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Llythyrwyd Prif

Weithredwr GwE, y Pennaeth Dysgu a'r Aelod Portffolio Addysg yn amlinellu'r angen i sicrhau bod CYSAG yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel corff statudol.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod CYSAG Môn yn derbyn y gefnogaeth ac arweiniad priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel corff statudol.
- Llunio cynllun gweithredu i CYSAG Môn ar gyfer 2018-19.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed (2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**Cwricwlwm i Gymru**

- Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae CYSAG Môn wedi cyfrannu at y broses ymgynghorol, y 'Sgwrs Fawr' ac wedi trafod argymhellion y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015.
- Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynrychioli ar Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth Cymru ac mae Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru wrth iddynt gefnogi'r ysgolion arloesol a datblygu Cwricwlwm i Gymru.
- Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad gan yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yng nghyfarfod Hydref 2017. Amlinellwyd cyfraniad gwaith Barbara Wintersgill, Prifysgol Caerwysg ar 'syniadau mawr Addysg Grefyddol' i drafodaethau'r ysgolion arloesi sy'n datblygu'r Cwricwlwm newydd. Rhannwyd prif negeseuon y papur ymgynghorol a baratowyd gan aelodau o'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol a Chymdeithas CYSAGau Cymru ar gyfer y grŵp sy'n datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau
- Annog athrawon addysg grefyddol Ynys Môn ac aelodau CYSAG Môn i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a threfniadau asesu;

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Môn yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017)
- Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Mehefin 2018)*

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod arweinwyr ysgolion ac athrawon yn ymwybodol o'r arweiniad atodol ac yn gweithredu ar argymhellion diweddaraf ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013)
  - Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017)
  - Diweddariad ar gyfer Arolygwyr (ESTYN, Ebrill 2018)'. Tynnwyd sylw at y dyfyniad a ganlyn o'r canllawiau:-

    *'Efallai nad effeithir ar y farn ar gyfer MA4 os na fodlonir y ddyletswydd statudol. Mae hyn yn rhywbeth i'r tîm ei ystyried. Bydd angen i'r tîm bwyso a mesur nifer o ffactorau ym mhob achos penodol, er enghraifft nifer y disgyblion y mae'n effeithio arnynt, a bydd rhaid i'r tîm benderfynu p'un a yw hyn yn arwyddocaol ai peidio, a ph'un a ddylai effeithio ar y farn gyffredinol ar gyfer MA4. Ni waeth p'un a fydd arolygwyr yn penderfynu adrodd ar addoli ar y cyd ai peidio, rhaid iddynt bob amser adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.'*

- Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mewn ymateb i argymhellion CYSAG Môn, mae'r Awdurdod Addysg wedi llythyru'r ysgolion yn rheolaidd yn gofyn iddynt estyn gwahoddiad i aelodau CYSAG i fynychu sesiwn addoli ar y cyd. Cytunwyd (6.10.15). Mae pro-fforma ar gael i'r aelodau i gofnodi eu harsylwadau yn ystod eu hymweliadau. Mynychodd y Cynghorydd Gwilym O Jones sesiwn addoli ar y cyd yn Ysgol Pencarnisiog yn ystod y flwyddyn.

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Môn i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.
- Sicrhau bod ysgolion ac aelodau CYSAG yn derbyn copïau o 'Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN), a 'Canllawiau ynglyn ag addoli ar y cyd' (Cymdeithas CYSAGau Cymru');

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Môn yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Ynys Môn 2017-8

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Parch./Rev. Kate McClelland (Haf 2016) |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Catherine Jones |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Mrs Einir Morris |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Mrs Anest Frazer |
| Undeb yr Annibynwyr | Yr Athro Euros Wyn Jones |
| Yr Eglwys Babyddol | Mr Christopher Thomas |

**Cynrychiolwyr Athrawon (cyfetholwyd)**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Llangaffo | Manon Morris Williams |
| Ysgol Cybi | Alison Jones |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | Heledd Hearn |
| Ysgol Syr Thomas Jones | Mefys Jones Edwards |

**Cynghorwyr**

Cynghorydd Glyn Haynes
Cynghorydd Gwilym O Jones
Cynghorydd Alun Mummery
Cynghorydd Bryan Owen
Cynghorydd Dylan Rees **(Cadeirydd**)
Cynghorydd Alun Roberts

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

| | |
|---|---|
| Rheinallt Thomas | Cyngor yr Ysgolion Sul |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Delyth Molyneux<br>Arwyn Williams Ebrill 2018 ymlaen | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes |
| Gareth Jones | Swyddog Addysg a chlerc CYSAG Môn |
| Bethan James (tan Ebrill 2018) | Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE |
| Shirley Cooke | Swyddog Pwyllgor |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2017-18

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2017 – 2018, cyfarfu CYSAG Ynys Môn ar ddau achlysur:

10 Hydref 2017
18 Ebrill 2018
Haf 2018 – dim cyfarfod

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 10 Hydref 2017**

- Materion yn codi: *gwahodd Ysgol David Hughes i rannu arferion da, rhannu canllawiau i aelodau newydd CYSAG, diolch i benaethiaid uwchradd am eu cefnogaeth i'r athrawon sy'n datblygu'r cwrs Astudiaethau Crefyddol (TGAU) newydd, lleihad yn y nifer sy'n astudio diwinyddiaeth yng Nghymru, deiseb genedlaethol addoli ar y cyd.*
- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Ynys Môn 2016/2017
- Safonau addysg grefyddol: arolygiadau ysgol
- Cyflwyniad: Ymateb Ysgol Pencarnisiog i argymhelliad arolygiad ESTYN
- Arolwg thematig ESTYN
- Diweddariad gan Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Wrecsam ar 7 Gorffennaf 2017
- Cynllun Gweithredu CYSAG Môn ar gyfer 2017-18

**b) Cyfarfod 18 Ebrill 2018**

- Materion yn codi: *canlyniadau'r ddeiseb genedlaethol ar addoli ar y cyd, gohebiaeth Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cwestiynau holiadur arolwg thematig ESTYN ar Addysg Grefyddol.*
- Adroddiad blynyddol CYSAG Ynys Môn 2016-17.
- Arolygiadau ESTYN: Ysgol Penysarn, Ysgol y Fali, Ysgol Brynsiencyn, Ysgol Llanbedrgoch, Ysgol Santes Gwenfaen, Rhoscolyn ac Ysgol Rhosybol.
- Hunan arfarniadau ysgolion: Ysgol Corn Hir, Ysgol Pentraeth
- Cefnogaeth arbenigol i CYSAG Môn
- Gwelliant i gyfansoddiad Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Canllawiau ar Reoli'r Hawl i Dynnu Disgyblion yn Ôl o Addysg Grefyddol (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2018)
- Gohebiaeth:

**3.3.1** Mae CYSAG Ynys Môn wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- ????????

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- ?????????

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Delyth Molyneux, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Gareth Jones , Swyddog Addysg sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Bethan James, Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE (tan Ebrill 2018)
Shirley Cooke, Swyddog Pwyllgor sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Ynys Môn

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni. LL77 7EY

### 3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG

Dosberthir copi electronig o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Gwefan Ysgolion Ynys Môn
- Cymdeithas CYSAGau Cymru

**Darperir copi hefyd i:**

- Aelodau CYSAG Môn

## 3.4 Templed CYSAG Ynys Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

Prif swyddogaeth CYSAG yw monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a chynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn credu y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Mae llawer o CYSAGau yn monitro safonau trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ag aelodau CYSAG.

**Gwybodaeth bellach:**

- Cymdeithas CYSAGau Cymru: www.wasacre.org.uk
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd: Cylchlythyr 10/94 (Swyddfa Gymreig)
- Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru (Cym. CYSAGau C)
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2012);
- Adolygiad o Adroddiadau CYSAG (Llywodraeth Cymru, 2011 and 2013)

**Adran Addysg a Sgiliau Cymru (AdAS)**

Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' neu'i addasu fel eu maes llafur cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi addysg grefyddol yng Nghymru trwy ddarparu canllawiau i gefnogi athrawon, penaethiaid ac aelodau CYSAG. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ddulliau addysgu, adnoddau ac asesu. Roedd proses gymedroli allanol genedlaethol 2010 -12 yn gyfle i adrannau AG mewn ysgolion uwchradd ddangos eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad Addysg Grefyddol.

**Gwybodaeth bellach**

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)

- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a  3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed (2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau:  Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012  (http://cbac.co.uk)

**ESTYN**

Mae arolygiadau ESTYN  yn seiliedig ar bum maes arolygu:





1. Safonau
2. Lles ac agweddau at ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Prin yw'r adroddiadau arolygiadau ysgol sy'n cynnwys sylwadau ar safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Cyhoeddwyd adolygiad thematig o Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd ym mis Mehefin 2013 ac mae'n cynnig argymhellion i awdurdodau lleol, ysgolion a CYSAGau.

**Gwybodaeth bellach:**

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Haf 2018)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017)

**Pa dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion wrth ddod i farn?**

| | |
|---|---|
| **Craffu ar lyfrau**<br> | Mae athrawon yn casglu sampl o waith disgyblion, (*e.e. amrediad o allu, oed, bechgyn a merched*) er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• I ba raddau y mae'r gwaith yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd Digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Arsylwadau gwersi**<br> | Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn arsylwi gwersi er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG?  A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• A yw'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel?  A ydynt yn cyfrannu i'w dysgu?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Holiaduron a chyfweliadau**<br> | Gall ysgolion ddadansoddi canlyniadau holiaduron a ddefnyddiwyd i ganfod barn disgyblion, athrawon a rhieni i gwestiynau megis:<br>• Beth yw eu barn am 'gynnwys' y gwersi AG? A oes grwpiau arwyddocaol o ddisgyblion/rhieni sy'n cynnig barnau gwahanol?<br>• Pa gynnydd a wneir ganddynt yn eu sgiliau Addysg Grefyddol?<br>• Beth yw eu rhagdybiaethau/barnau/agweddau tuag at Addysg Grefyddol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Data**<br> | Gall ysgolion ddefnyddio data asesiadau athro neu ganlyniadau arholiadau allanol (uwchradd yn unig) er mwyn adnabod tueddiadau neu batrymau?<br>• Pa mor dda y mae bechgyn/merched/grwpiau o ddisgyblion yn perfformio dros gyfnod?  (*pob ysgol*)<br>• Pa mor dda mae disgyblion ein hysgol/adran ni yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion/adrannau eraill?   (*ysgolion uwchradd yn unig*)<br>• A oes grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni?  (*pob ysgol*)<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu mewn addysg grefyddol? |
| **Eraill**<br><br>RE Quality Mark GOLD<br>Newyddion **Addysg Grefyddol**<br>**Religious Education** News | Gall barn ysgolion hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth arall megis:<br>• Llwyddiant mewn cystadlaethau AG lleol neu genedlaethol;<br>• Cyfrannu tuag at ddigwyddiadau/cynadleddau/prosiectau/cyhoeddiadau lleol neu  genedlaethol;<br>• Adroddiadau monitro gan aelodau eraill o'r staff *e.e. cydlynwyr llythrennedd rhifedd neu TGCh;*<br>• Cofnodion cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr neu ymwelwyr CYSAG;<br>• Ymchwil gweithredu gan aelod o Gymuned Ddysgu Broffesiynol;<br>• Achrediad allanol, *e.e. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol http://www.reqm.org/wales* |

## Canllawiau CYSAG (tudalennau 3, 4, 5 a 6)

**I ba raddau y mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion? (Maes arolygu 4.2)**
Bydd arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn gymorth i'r ysgol arfarnu maes arolygu 4.2 sef 'Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol).

Mae arweiniad arolygu ESTYN (Medi 2017) ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol yn nodi:

> *"Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol."*

O fewn amserlen cylch hunan arfarnu'r ysgol bydd angen ystyried pa dystiolaeth fydd yn helpu'r ysgol i ddod i farn ar faes arolygu 4.2. Mae gan addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gyfraniad pwysig i'r maes hwn.

Mae'r cwestiynau enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN (Medi 2017) a'r cwestiynau a defnyddiwyd gan ESTYN yn ystod arolygiad thematig ar addysg grefyddol yn ystod tymor yr Hydref 2017. Nid oes disgwyl i ysgol ateb pob cwestiwn, ond o drafod y rhain gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion ac ymgynghorydd cefnogi gwelliant bydd ysgol yn gallu adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn eu galluogi i gynllunio gwelliannau.

### Maes Arolygu 1: Safonau

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- Beth yw eich barn am safonau addysg grefyddol yn eich ysgol? *(Disgyblion CS, CA2, CA3, CA4, CA5)*
- Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol?
- I ba raddau mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn addysg grefyddol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd?
- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol?
- Rhowch enghraifft o sut mae'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau corfforol mewn gweithgareddau addysg grefyddol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- A yw'r disgyblion yn dangos diddordeb mewn addysg grefyddol?
- Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau o'r ddarpariaeth. Amser i'r pwnc? % sy'n dewis fel opsiwn Ast. Cref? % sy'n cael achrediad am AGref statudol.

- Sut ydych yn gwybod bod eich ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol?
- Sut mae addysg grefyddol yn cael ei haddysgu yn eich ysgol?
- A yw'r addysg grefyddol yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion?
- Pa mor dda y mae'r gwersi/gweithgareddau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal â'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd?
- Beth yw ansawdd y cynllunio ar gyfer addysg grefyddol? (adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol? amcanion clir? dulliau addysgu? adnoddau?)
- Pa mor dda y mae'r adborth mewn addysg grefyddol yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n asesu ac yn olrhain cynnydd disgyblion mewn addysg grefyddol?

- Sut mae'r cynllunio ar gyfer addysg grefyddol yn helpu'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus? A ydych wedi dechrau ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn rhoi ystod eang a phriodol o brofiadau, tu fewn a thu allan i'r dosbarth, er mwyn datblygu diddordeb a medrau'r disgyblion mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn trefnu unrhyw deithiau neu ymweliadau sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol? Pa grwpiau blwyddyn, pa mor aml, a sut mae'r teithiau hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm?
- A yw'r addysg grefyddol yn adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol? A yw'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol?
- I ba raddau mae'r gweithgareddau addysg grefyddol yn rhoi cyfleoedd cynyddol bwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh i'r safon briodol?'
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?


**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad**

- I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol?
- Sut mae'r disgyblion yn dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol neu a oes ganddi gysylltiadau ag unrhyw arweinwyr neu sefydliadau ffydd?
- Beth yw cyfraniad addysg grefyddol i ddealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach?
- Rhowch enghreifftiau o sut mae addysg grefyddol wedi helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ystrydebau neu eithafiaeth grefyddol, hawliau dynol?
- I ba raddau mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?
- Pa mor dda mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain?
- A yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd?
- Beth yw ansawdd yr addoli ar y cyd? Pa mor dda y mae'r ysgol yn ei gynllunio dros gyfnod?
- Sut mae'r ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio, *e.e. deunydd eithafol naill ai drwy siaradwyr gwadd neu siaradwyr ar ymweliadau a safleoedd*?
- Sut ydych chi'n sicrhau y caiff pryderon ynghylch sylwadau a wneir gan ddisgyblion yn ystod gwersi addysg grefyddol eu hystyried yn briodol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol?
- A yw'r staff yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol?
- Sut ydych yn dyrannu adnoddau i gynorthwyo i addysgu addysg grefyddol?
- Sut caiff rhieni eu hysbysu am eu hawl i dynnu disgyblion o wersi addysg grefyddol? Sawl disgybl sy'n cael eu tynno o wersi addysg grefyddol gan eu rhieni ac a oes gan yr ysgol drefniadau da i ddarparu ar eu cyfer yn ystod gwersi addysg grefyddol? A yw'r nifer hon wedi cynnydd/gostwng/aros yr un fath dros y 5 mlynedd diwethaf? O ba grwpiau y daw'r disgyblion hyn? A ydych yn cael sgwrs a rhieni ynghylch eu penderfyniad?
- Ym mha ffyrdd y mae darpariaeth eich ysgol ar gyfer addysg grefyddol yn helpu i hyrwyddo cydlyniad cymunedol gwell?
- Pa mor aml ydych chi'n monitro addysg grefyddol? Sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu a staff perthnasol eraill?
- A ydych yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn yr adroddiad hunan-arfarnu a'r cynlluniau gweithredu?
- A ydych yn cydweithio gydag athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol mewn ysgolion eraill? Beth yw effaith hyn?
- Beth yw'r 'enghraifft gorau o addysg grefyddol' y gallwch ei rannu gyda'ch CYSAG lleol neu gydag athrawon eraill?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Sut y gall CYSAGau fonitro safonau?**




**Sut y gall CYSAG gywain gwybodaeth?**

- trwy ofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth a hunan arfarniad;
- trwy gomisiynu 'arbenigwr' i ymweld â sampl o ysgolion a darparu adroddiad tymhorol;
- trwy drefnu bod yr aelodau yn ymweld ag ysgolion;
- trwy ofyn i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn sampl o ysgolion gwblhau holiadur ar-lein;
- trwy edrych ar ganlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athro CA3 (ysgolion uwchradd yn unig)

**Pa ffynonellau sydd ar gael yn eich hardal chi?**

- Dadansoddiad o adroddiadau hunan arfarnu ysgolion;
- Dadansoddiad o bolisïau, cynlluniau gwaith, cynlluniau datblygu ysgolion;
- Data perfformiad ysgolion: asesiadau athrawon CA3 canlyniadau TGAU Safon UG/A;

**Pwy sy'n cyfrannu tuag at y monitro?**

- athrawon ac aelodau o UDRh ysgolion
- aelodau CYSAG
- swyddogion Awdurdod Lleol/GwE
- athrawon a nodwyd fel athrawon neilltuol
- disgyblion
- llywodraethwyr
- rhieni

**Rhifau - meintiau a chyfrannau**

| | | |
|---|---|---|
| bron bob un | = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | = | 90% neu fwy |
| llawer | = | 70% neu fwy |
| mwyafrif | = | dros 60% |

| | |
|---|---|
| **Rhagorol**<br>**Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig**<br>arbennig, da iawn, cryf iawn, eithriadol, yn rhagori ar, arbennig, ardderchog, gwych, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, ymestynnol, creadigol iawn, ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, effeithiol iawn, hyfedr, meistrolgar | **Da**<br>**Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau**<br>llwyddiannus, cryf, cadarn, medrus, buddiol, gwerthfawr, cadarnhaol, trwyadl, defnyddiol, nerthol, grymus, cynhwysfawr, defnydd da, cyson dda, effeithiol, pwrpasol |
| **Digonol ac angen gwelliant**<br>**Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella**<br>boddhaol, priodol, addas, effeithlon, cymwys, perthnasol, digonol, digon, dilys, cadarn, diogel, canolig, cyson, cymedrol, anghyson, cyfyngedig | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**<br>**Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau**<br>annigonol, aneffeithlon, dim, amhriodol, aneffeithiol, anaddas, methu, gwan, gwael, cyfyngedig. |
| Rhagorol<br>Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig | Da<br>Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |

**Geiriau/ymadroddion defnyddiol**

Mae xxx wedi arwain at....
O ganlyniad i xxx mae safonau xxx wedi codi xx% er xx
Yn dilyn cyflwyno xxx mae xxx wedi gwella, fel y dangosir gan ...
Dengys xxx fod safonau xxx wedi...
Gwelir effaith xxx yn xxx sy'n dangos bod....
Gellir gweld gwelliant mewn xxx yn ....
Gellir gweld dylanwad xxx yn y gwelliant/cynnydd...
Dengys XXXXX bod x% o'r disgyblion yn gallu/bod gan x% o'r disgylion ...
Dengys xxx bod x% o'r rhieni/staff/llywodraethwyr yn....

**Beth ddylid ei gynnwys?**

- **Effaith ymyrraeth** ar (safonau, lles, addysgu, agweddau, gwerthoedd)
- **Tueddiadau** dros gyfnod
- **Cymhariaeth** ag ysgolion eraill (?)
- **Barn** - defnyddio termau arfarnol
- **Meintioli** pa bryd bynnag y bo'n bosibl

**Enw'r Ysgol:**

| Addysg Grefyddol |
|---|
| **Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**<br>***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?*** |
| • Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC. |
| Nodiadau: |
| **Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: BARN** |

| |
|---|
| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** |
| • Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grŵp ffocws/Cyngor Ysgol<br>• I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017), |
| Nodiadau: |
| **Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** |

| |
|---|
| **Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**<br>***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog*** |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018) |
| Nodiadau: |
| **Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**<br>***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?*** | | | | |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw droseddau casineb/bwlio.<br>• I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglŷn ag addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017) | | | | |
| Nodiadau: | | | | |
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: BARN** | | | | |

| |
|---|
| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |

| |
|---|
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro a hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| Nodiadau: |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: BARN** |

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Cryno! Tua 50 o eiriau.

**Enw'r pennaeth**
**Llofnod y pennaeth**
**Dyddiad:**

**3.6: Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYSAG Ynys Môn wrth iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd**

**<u>Cyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn: | ysgol arbennig | ☐ |
| | ysgol gynradd | ☐ |
| | ysgol uwchradd | ☐ |
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd: | torfol/ysgol gyfan | ☐ |
| | dosbarth | ☐ |
| | cyfnod allweddol | ☐ |
| Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: | y pennaeth | ☐ |
| | disgyblion | ☐ |
| | athro/athrawon | ☐ |
| | arweinydd crefyddol lleol | ☐ |
| | rhiant/rhieni | ☐ |
| | llywodraethwr | ☐ |
| Roedd y sesiwn addoli ar y cyd wedi para: | llai na 5 munud | ☐ |
| | rhwng 5-10 munud | ☐ |
| | rhwng 10-15 munud | ☐ |
| | dros 15 munud. | ☐ |

Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: ____________________________________________

Clywais:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Stori Feiblaidd | | | Cyflwyniad gan oedolyn | |
| Stori o draddodiad crefyddol arall | | | Cyflwyniad gan y disgyblion | |
| Stori foesol/cyfoes/hanesyddol addas | | | Disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad | |
| Disgyblion yn gweddïo (yn unigol neu ar y cyd) | | | | |
| Emyn /carol Cristnogol | | | | |
| Cân addas | | | | |

Tanlinellwch y tri datganiad gorau sy'n disgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd.

Heddiw, roedd y sesiwn addoli ar y cyd yn:

- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth;
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu'n fyd-eang;
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg;
- hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;

- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau ‘hapus’ a ‘thrist’ sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a’r gymuned leol, ac i’w rhannu;
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

Unrhyw sylw arall:

## 3.7 : Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn 2018-19

| **Adroddiad Blynyddol CYSAG Môn 2016-17/2017-18** | **Camau Gweithredu 2018-19**<br>**ALl (Awdurdod Lleol)**<br>**YP (Ymgynghorydd Pwnc)**<br>**AC (Aelodau CYSAG)** | **Tystiolaeth** | **Deilliannau** | |
|---|---|---|---|---|
| Cwricwlwm i Gymru<br>Maes Dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau<br>"Yr hyn sy'n bwysig" | • Sicrhau bod penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr ac aelodau CYSAG yn wybodus am ofynion Cwricwlwm i Gymru (YP)<br>• Cyfrannu at drafodaethau lleol er mwyn cynllunio profiadau dysgu sy'n ymateb i'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau. (ALL+YP+AC)<br>• Cynrychioli Ynys Môn mewn unrhyw drafodaethau cenedlaethol parthed datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu (ALl+ YP + AC)<br>• Datblygu Maes Llafur Cytûn ar gyfer ysgolion Môn sy'n adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru | • Cofnodion CYSAG Ynys Môn<br>• Cofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Ynys Môn i ysgolion.<br>• Maes Llafur Cytûn Ynys Môn<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Maes Llafur Cytûn Ynys Môn yn adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru<br>• Addysg Grefyddol yn cael ystyriaeth lawn wrth i ysgolion adolygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.<br>• Y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol.<br>• Safonau addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd | • Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio a'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addolir ar y cyd o ansawdd.<br>• Annog ysgolion i wahodd aelodau o GYSAG Ynys Môn i fynychu sesiynau addoli ar y cyd | • Gohebiaeth i ysgolion<br>• Adroddiadau llafar aelodau CYSAG<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN | • Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda.<br>• Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | ☺<br>😐<br>☹ |
| | • | • | • | |
| | • | • | • | |

Tudalen 33

## Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn 2019  - 2022

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn seiliedig ar y dogfenau canlynol:

- Adroddiad blynyddol CYSAG
- Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022
- Adroddiadau  ESTYN, Mehefin 2018  Addysg Grefyddol yng nghyfnod alweddol 2 a chyfnod allweddol 3

| Blaenoriaeth | Camau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Tystiolaeth | Deilliannau | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg Grefyddol ac Addoli ar y cyd yn weithredol a chadarn dda mewn bob un ysgol.**<br><br>**Cynllunio'n fwriadus i godi  delwedd y pwnc.** | • Codi proffil a photensial Addysg Grefyddol yn yr ysgolion uwchradd a chynradd.<br><br>• Adolygu a monitor ansawdd addoli ar y cyd yn yr uwchradd a'r cynradd .<br><br>• Adnabod a sicrhau bod gan pob ysgol person arweiniol Addysg Grefyddol, a bod cyfrifoldeb o gyflwyno Addoli ar y cyd yn glir ac yn weithredol.<br><br>• Darparu hyfforddiant / sesiynau ar sut i gyflwyno addoli ar y cyd o ansawdd.<br><br>• Codi lefel atebolrwydd Aelodau | **Aelodau CYSAG**<br><br>**Aelodau CYSAG [Cydgysyllwtwy AG Uwchradd]**<br><br>**Ysgolion ac Aelodau CYSAG**<br><br>**GwE/ Cydgysylltwyr AG Uwchradd**<br><br>**Awdrdod** | • Adnoddau Addysg Grefyddol a chyd addoli yn y blwch ar fforwm Addysg Môn.<br><br>• Adroddiadau llafar aelodau'r CYSAG.<br><br>• Hyfforddiant penodol wedi ei drefnu drwy Gwe yn dilyn adnabyddiaeth o'r angen<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN. | • Pob ysgol yn cydymffurfio a'r disgwyliadau am addoliad ar y cyd yn ddyddiol.<br>• Addysg Grefyddol ac Addoli ar y cyd yn cael ei flaenoriaethu'n fwriadus ga bod ysgol.<br><br>• Perthnasu pwysigrwydd Addysg Grefyddol yn ein bywyd bob dydd trwy lesiant, myfyrdodau a chymuned drwy addoli ar y cyd.<br><br>• Bywyd ysbrydol y dysgwyr yn cael eu meithrin.<br><br>• Hyfforddiant perthnasol wedi ei gynllunio a'i gyflwyno.<br><br>• Aelodau CYSAG yn gweithredu'n llawn i | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | o’r CYSAG.<br><br>• Rhaglen waith ar gyfer yr aelodau iddynt arsylwi sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion.<br><br>• Adroddiadau craffu yn sicrhau bod continiwm o ddysgu. | **Pwyllgor CYSAG** | | ymgyfarwyddo gwaith ysgolion o fewn y maes drwy ymweldiadau a chynnal adroddiadau tymhorol | |
| **Gwybodaeth athrawon am eu cyfrifoldebau mewn AG yn gyfoes er mwyn eu galluogi i addysgu gofynion y CNiG gyda hyder.** | • Sicrhau bod peneithiaid, athrawon ac aelodau o’r CYSAG yn wybodus am ofynion y Addysg Grefyddol fel rhan o’r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau o fewn y Cwricwlwm Newydd.<br><br>• Sicrhau bod cyfleoedd i rannu arferion da rhwng ysgolion drwy edrych ar waith dysgwyr, cynlluniau gwaith ac arsylwadau gwersi anffurfiol.<br><br>• Sicrhau bod cysylltiad rhwng athrawon cynradd ac athrawon MDaPh Dyniaethau er mwyn rhannu arferion da. | **Ymgynghorydd Pwnc ac Arweinwyr o ysgolion arloesi.** | • Enghreifftiau o arferion da.<br><br>• Gwaith dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y CNiG o safon uchel.<br><br>• Cofnodion o gyfarfodydd. | • Gwaith AG pob dysgwr yn adlewyrchu y pedwar diben.<br><br>• Dysgwyr yn cael profiadau gwerthfawr o’r dysgu ac addysgu.<br><br>• AG yn rhan naturiol o’r dysgu ac yn cael sylw cyfartal o fewn y MDaPh. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Creu platfform i rannu adnoddau er mwyn rhannu arferion da o fewn AG ac addoli ar y cyd.** | • Ychwanegu blwch Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn ar fforwm HWB  Addysg Môn. | **Ymgynghorydd Pwnc.** | • Y blwch ar wefan HWB.<br>• Enghreifftiau o arferion da ynddo. | • Lleihau llwyth gwaith athrawon wrth gynllunio gwaith AG ac ac addoli ar y cyd.<br>• Hwyluso creu sesiynau cydaddoli I ysgolion.<br>• Banc o wersi da ac ardderchog yn cael eu rhannu rhwng athrawon er mwyn codi safon addysgu AG mewn ysgolion. | |

This page is intentionally left blank

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Amlwch**
**Amlwch**
**Ynys Môn**
**LL68 9DY**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Amlwch

Lleolir Ysgol Gynradd Amlwch yn Sir Fôn. Mae 293 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 27 oed meithrin rhan amser. Fe'u rhennir yn 10 dosbarth, gan gynnwys 5 dosbarth oedran cymysg.

Tua 22% o'r disgyblion ar gyfartaledd dros dreigl 3 blynedd sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae ychydig o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn yr ysgol lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae'r ysgol wedi adnabod 18% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn ychydig yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cychwynnodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae lles disgyblion yn greiddiol i holl waith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion bregus yn ganmoladwy ac yn ymateb yn dda i anghenion y disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwrtais iawn ac yn ofalgar o'i gilydd.

Mae ethos cymunedol cryf yn bodoli yn yr ysgol ac mae disgyblion yn dangos balchder tuag at eu cymuned leol. Cefnogir hyn yn dda trwy ymweliadau niferus i'r ardal leol ac ymwelwyr a ddaw i'r ysgol.

Ar y cyfan, mae'r addysgu yn gadarn ac mae athrawon yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn brwdfrydedd y disgyblion yn eu dysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblon yn dangos agwedd bositif tuag at eu dysgu. Fodd bynnag, mae mwyafrif y disgyblion yn amharod i sgwrsio yn y Gymraeg yn gyson.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn darparu arweiniad clir i waith yr ysgol. Mae ganddynt wybodaeth glir am safonau ac yn defnyddio ystod bwrpasol o weithgareddau arfarnu addas er mwyn sicrhau gwelliant.

---

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu ar ganfyddiadau'r prosesau hunanwerthuso yn fwy effeithiol ac amserol

A2 Mynd i'r afael â'r materion diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

A3 Codi safonau llafar ac ysgrifennu Cymraeg

A4 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A5 Cysoni'r addysgu a'r asesu ar gyfer dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

# Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Ar fynediad i'r dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda medrau rhifedd sy'n briodol neu'n uwch na'u hoed. Fodd bynnag, mae medrau llythrennedd llawer o ddisgyblion ar fynediad yn is na'r lefel ddisgwyliedig. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Maent yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cymhwyso eu medrau meddwl a chreadigol yn fwriadus ar draws ystod o feysydd dysgu a'r cwricwlwm, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 2 ymchwilio i wahanol ddeunyddiau ar gyfer gwneud siaced gwrth-ddŵr i Sion Corn.

Mae medrau siarad Cymraeg llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n addas. O oed cynnar, maent yn gwrando ar storïau a chyfarwyddiadau gan ymateb yn briodol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion meithrin, lle mae ganddynt afael priodol o'r Gymraeg, yn ail-ddweud stori'r Bachgen Bach Sinsir gyda chywirdeb a phatrwm brawddegau clir. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn sgwrsio'n hyderus wrth drafod cynhwysion a'r dull o wneud bwyd i geirw Sion Corn. Ym Mlwyddyn 6, mae llawer yn datblygu eu syniadau'n hyderus wrth baratoi araith ar gyfer dwyn perswâd i beidio â boddi Capel Celyn. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn troi i siarad Saesneg gyda'u cyfoedion yn y dosbarth a thu allan yn aml, ac yn amharod i sgwrsio yn y Gymraeg yn gyson.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu darllen. Maent yn datblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau ac yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol er mwyn darllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer ohonynt yn darllen gyda mynegiant a rhuglder. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol yn eu medrau ysgrifennu gan ddefnyddio fframiau ysgrifennu i'w cynorthwyo. Erbyn diwedd y cyfnod, mae ychydig o ddisgyblion sydd yn fwy abl yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau ac atalnodi sylfaenol yn gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu stori greadigol yn seiliedig ar daith Manza yn Affrica. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni parod a fframiau ysgrifennu yn cyfyngu disgyblion rhag ysgrifennu'n rhydd yn rheolaidd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer y disgyblion yn darllen yn hyderus a rhugl yn y ddwy iaith. Maent yn trafod prif ddigwyddiadau a chymeriadau o'u llyfrau yn wybodus gan fynegi barn am eu hoff awduron. Maent yn defnyddio uwch fedrau darllen yn dda i ganfod gwybodaeth o ffynonellau amrywiol, er enghraifft wrth baratoi cyflwyniad amlgyfrwng ar un o enwogion y 60au. Ar draws y cyfnod, datblygir medrau ysgrifennu llawer y disgyblion yn addas. Ym Mlwyddyn 4, mae llawer ohonynt yn datblygu eu syniadau'n briodol mewn ystod o ffurfiau at wahanol ddibenion, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd am Neil Armstrong yn Saesneg. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae strwythur brawddegau aneglur gan ychydig o ddisgyblion yn enwedig yn y Gymraeg. Mae safonau ysgrifennu Saesneg llawer o ddisgyblion yn nosbarth hynaf yr ysgol yn gadarn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhif yn

effeithiol mewn ystod o weithgareddau rhifedd. Maent yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus i ddatrys problemau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, er enghraifft wrth fesur papur ar gyfer lapio anrhegion Nadolig yng ngweithdy Sion Corn ac wrth gyfrifo faint o gynhwysion sydd eu hangen ar gyfer gwneud bara. Mae llawer o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn defnyddio graddfa ar fap yn llwyddiannus er mwyn cyfrifo pellter rhwng Amlwch a lleoliadau amrywiol. Er bod enghreifftiau da o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws agweddau o'r cwricwlwm, nid yw hyn yn gyson ar draws pob dosbarth.

Mae safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws yr ysgol o safon dda ac yn rhan annatod o waith pob disgybl. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth eang o raglenni yn hyderus i gefnogi a gwella agweddau o'u gwaith yn rheolaidd. Maent yn defnyddio gliniaduron a llechi electronig yn annibynnol i gefnogi a datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn tynnu ffotograffau o'u gwaith ac yn eu defnyddio i greu cyflwyniadau amrywiol ac asesu eu gwaith eu hunain. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio TGCh yn hyderus i ymchwilio i wybodaeth a'i rhannu trwy gyflwyniadau amlgyfrwng niferus, er enghraifft i ddisgrifio bywyd Martin Luther King ac wrth gyflwyno stori Llywelyn ein Llyw olaf. Maent yn ychwanegu cerddoriaeth ac effeithiau sain atynt yn hyderus. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio taenlenni yn hyderus i gyfrifo cost lluniau Andy Warhol mewn doleri a phunnoedd.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn deall at bwy i droi os byddant yn poeni neu'n gofidio. Maent yn groesawgar tuag at ei gilydd ac yn dangos parch tuag at ymwelwyr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarthiadau, yn y coridorau ac yn y gwasanaethau. Maent yn cydweithio'n dda gan wrando a pharchu cyfraniadau a syniadau eraill, er enghraifft wrth i ddisgyblion gydweithio mewn grwpiau bach i baratoi anrhegion Nadolig yn ffatri Sion Corn.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn nifer o gynghorau sy'n annog cyfrifoldebau a gofal ymhlith disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan lawer ymwybyddiaeth dda iawn o bwysigrwydd prynu nwyddau lleol a chynnyrch masnach deg, a'r effaith gaiff hyn ar gynhyrchwyr tramor. Cefnogir hyn yn dda gan waith cyngor masnach deg yr ysgol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet. Er enghraifft, mae prosiect brechdan iach a phlât bwyd iach Blwyddyn 6 yn atgyfnerthu hyn yn llwyddiannus. Mae'r cyngor eco yn tyfu llysiau i'w defnyddio yn y gegin er mwyn codi arian i brynu offer garddio. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd ac entrepreneuriaeth yn dda.

Datblygir llais y disgyblion yn bwrpasol wrth iddynt gynnig syniadau ar gyfer gwaith y dosbarth a chymryd rôl yn eu dysgu eu hunain. Wrth wrando ar lais eu cyd-ddisgyblion, mae'r cyngor ysgol wedi prynu adnoddau chwaraeon amser chwarae er mwyn hybu ymarfer corff a'u lles adeg egwyl. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau personol a chymdeithasol yn ogystal â datblygu eu hunanhyder a'u ffitrwydd yn llwyddiannus.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth gref am sut i gadw'n ddiogel, gan gynnwys pan fyddant ar-lein. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 wedi creu posteri i godi ymwybyddiaeth am e-ddiogelwch.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb i'w tasgau yn dda ac, ar y cyfan, maent yn gweithio'n annibynnol ac yn cymryd rôl weithgar yn eu gwaith. Gyda chymorth yr athrawes, maent yn barod i roi cynnig ar brofiadau newydd gan wybod at bwy i droi am gymorth pe bai angen. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac yn arddangos gwydnwch a dyfalbarhad.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus a'u datblygu'n unigolion hyderus a chreadigol. Mae llawer o athrawon yn holi'n fedrus er mwyn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion o'u tasgau a'u hannog i feddwl yn annibynnol. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi'u sefydlu'n gadarn, ac yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau'r ysgol, gan gynnwys ardaloedd tu allan yn rheolaidd, er mwyn datblygu medrau'r disgyblion mewn ystod eang o weithgareddau. Defnyddir cymorthyddion yn effeithiol i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Lle mae'r addysgu o safon uchel iawn, mae'r athrawon yn herio disgyblion yn fwriadus ac yn datblygu medrau'r disgyblion yn gelfydd trwy amrediad eang o bynciau cyfoes. Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu creadigol sy'n arwain disgyblion i fyd dychmygol. Enghraifft nodedig o hyn yw gweithgareddau symbylol sy'n seiliedig ar gyfnod tywysog Llywelyn. Mae'r gweithgareddau hyn yn ymgorffori agweddau o'r cwricwlwm newydd i Gymru. Fodd bynnag, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae diffyg her yn y gweithgareddau ac nid yw'r tasgau bob amser yn ymateb i anghenion pob disgybl. Ar adegau, mae gorddefnydd o daflenni parod yn cyfyngu disgyblion i ysgrifennu'n rhydd. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl sydd yn fwy abl yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig priodol i ddisgyblion er mwyn iddynt wybod pa mor dda maent wedi cyflawni. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae athrawon yn cynnig sylwadau adeiladol er mwyn i ddisgyblion wybod sut i wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach. Nid yw hyn yn gyson ar draws y dosbarthiadau na'r pynciau ac, o ganlyniad, nid yw disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog am Gymru er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o'u hardal leol a Chymru. Er enghraifft, mae'r ymweliadau niferus, fel ymweliad ag Oriel Môn, yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion yn dda o waith ac arddull yr artist Kyffin Williams.

Mae'r ysgol wrthi'n cynllunio'r fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol i'w chynlluniau cwricwlaidd. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi datblygu'n ddigon effeithiol er mwyn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso'u medrau mewn cyd-destun ehangach. Mae athrawon yn cynllunio'n fedrus iawn ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion trwy amrywiaeth eang a chyfoethog o brofiadau dysgu diddorol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus gan ddatblygu eu medrau ymhellach wrth symud drwy'r ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sy'n mynychu'r dosbarth penodol ar gyfer disgyblion ag anghenion. Mae aelodau o staff yn creu awyrgylch hapus, gofalgar a chynhwysol sy'n rhoi pwyslais clir ar ddatblygu medrau anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion ynghyd â'u medrau cwricwlaidd yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion y dosbarth hwn yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hanghenion.

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau tracio cynhwysfawr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn dda er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol er mwyn ffrydio a sicrhau darpariaeth mathemateg effeithlon ar gyfer unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau mathemategol y disgyblion.

Mae cynlluniau dysgu unigol a phroffiliau dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn bwrpasol. Mae aelodau o staff yn monitro'r cynnydd a wnânt tuag at fodloni eu targedau unigol yn rheolaidd. Defnyddir cymorthyddion dysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion yn eu dysgu ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda rhieni gan sicrhau eu hymrwymiad wrth gefnogi eu plentyn. Mae gan yr ysgol berthynas gadarn gydag ystod o asiantaethau allanol er mwyn cefnogi disgyblion ac i roi cymorth ac arweiniad i staff.

Mae trefniadau addas ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Trwy weithgareddau niferus fel nofio a gwersi addysg gorfforol yn y ganolfan hamdden leol, mae'r ddarpariaeth i hybu dealltwriaeth y disgyblion o ddewis ffordd iach o fyw yn gadarn.

Mae cynghorau llais y disgybl yn helpu datblygu medrau dinasyddiaeth disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r pwyllgor eco yn cynnal archwiliad ailgylchu ac arbed ynni yn rheolaidd, sy'n cryfhau eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd ailgylchu i arbed arian a gwarchod yr amgylchedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn gryf. Caiff datblygiad moesol y disgyblion ei hyrwyddo'n dda trwy amser myfyrio mewn gwasanaethau ac mae'r cydweithio agos gyda'r eglwys leol yn cyfrannu'n dda at hyn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol, yn arbennig mewn gweithgareddau chwaraeon.

Yn ystod yr arolygiad, codwyd ychydig o faterion am ddiogelwch, ac mae'r ysgol wedi dechrau ymateb iddynt. Ar y cyfan, mae trefniadau ar gyfer diogelu yn addas ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Ers ei phenodiad yn 2017, mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth sy'n seiliedig ar nodau ac amcanion clir i sicrhau bod lles disgyblion yn greiddiol i holl waith yr ysgol. Mae wedi rhannu'r weledigaeth yn briodol gyda'r staff, disgyblion a rhieni. Mewn amser byr, mae'r pennaeth wedi canolbwyntio ar sefydlu ethos o ymddiriedaeth ymysg y staff. Mae hyn wedi sicrhau bod staff, ar y cyfan, yn cydweithio'n bwrpasol i ddarparu profiadau diddorol i'r disgyblion.

Mae cyfarfodydd rheolaidd i staff ac uwch arweinwyr yn rhoi cyfle buddiol i drafod gweithdrefnau'r ysgol ac ystyried safonau cyflawniad. Yn gyffredinol, mae'r cyfarfodydd yn arwain at bwyntiau gweithredu addas sy'n sicrhau gwell cysondeb ar draws yr ysgol, er enghraifft wrth sefydlu a defnyddio'r weithdrefn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion.

Wrth gryfhau'r broses rheoli perfformiad, mae'r pennaeth wedi creu strwythur clir o atebolrwydd yn yr ysgol. Mae'r trefniadau hyn yn cysylltu targedau'r staff gyda'r cynllun datblygu yn llwyddiannus. Fel rhan o'r broses, mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd datblygiad proffesiynol addas i athrawon a staff cymorth i ehangu eu harbenigedd a gwybodaeth, er enghraifft drwy'r hyfforddiant ar ddatblygu meddylfryd twf sy'n dechrau gwreiddio yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n fwriadus gydag ysgolion lleol a rhanbarthol, ar feysydd fel creadigrwydd a'r cwricwlwm newydd. Mae hyn yn dechrau effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu mewn ychydig o ddosbarthiadau. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi bod yn rhy araf yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft o ran sefydlu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol ac yn cynnig her briodol. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cyfrannu'n helaeth at brosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant trwy arsylwi'r addysgu a chraffu ar waith disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i herio'r ysgol ynglŷn â pherfformiad a chynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol yn casglu gwybodaeth uniongyrchol am waith yr ysgol trwy amrediad priodol o weithgareddau hunanwerthuso. Mae hyn yn cynnwys teithiau dysgu, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a chasglu barn disgyblion a rhieni. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r prosesau hyn yn adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn defnyddio data yn gynyddol i adnabod meysydd y mae angen i ddisgyblion eu gwella. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gweithredu ar y canfyddiadau yn ddigon cadarn er mwyn sicrhau gwelliant mewn modd amserol.

Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau hunanwerthuso a chynllun gwella'r ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys blaenoriaethau priodol gyda gweithgareddau addas a meini prawf llwyddiant clir ar gyfer codi safonau a gwella'r ddarpariaeth ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith hyn yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol, er enghraifft ar bresenoldeb ac ar y ddarpariaeth ar gyfer y medrau. Nid yw'r ysgol wedi gwneud cynnydd digonol dros amser yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn rheoli'r gyllideb yn ofalus gan ddynodi gwariant addas er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi a hyrwyddo lles disgyblion. Mae adnoddau'r ysgol o ansawdd da, gan gynnwys offer TGCh a chyfarpar yr ardal allanol. Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cymorth sy'n gymwys i ddarparu cwricwlwm a chefnogaeth briodol i ddisgyblion.

Gwneir defnydd addas o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi disgyblion bregus a'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn cynnwys cyflogi staff ychwanegol ar gyfer addysgu grŵp targed o ddisgyblion. Mae'r disgyblion yn y grŵp hwn yn datblygu eu hunanhyder yn dda ac yn ymroi'n frwdfrydig i'w gwaith.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/02/2019

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Graig
# Ffordd Coleg
# Lon Talwrn
# Llangefni
# Ynys Môn
# LL77 7LP

## Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Graig

Lleolir Ysgol Y Graig yn nhref Llangefni, yn awdurdod lleol Ynys Môn. Mae 380 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae gan yr ysgol ddeg dosbarth oed sengl, tri dosbarth oed cymysg a dau ddosbarth meithrin rhan amser.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 22% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae tua 71% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae'r ysgol wedi adnabod 27% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol o 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ionawr 2016. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac maent yn gwneud cynnydd da ar lafar, yn eu darllen a'u hysgrifennu, o ystyried eu mannau cychwyn. Mae medrau Saesneg llawer ohonynt wrth drafod, cyflwyno gwaith ysgrifenedig a darllen yn datblygu'n fwriadus. Ychydig o ddisgyblion sy'n arddangos eu gwir alluoedd yn llwyddiannus wrth ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn caffael cysyniadau mathemateg cadarn a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) pwrpasol.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n ddiwyd a chydwybodol iawn am eu disgyblion ac yn cynnig arweiniad a chymorth gwerthfawr dros ben iddyn nhw a'u teuluoedd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol. Maent yn ymfalchïo yn eu perthnasoedd â'r staff ac yn datgan eu diolch am ymroddiad y staff tuag at eu anghenion a'u diddordebau.

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth drylwyr o anghenion yr ysgol. Mae hi'n cydweithio'n agos â'r llywodraethwyr i greu gwelliannau ac yn adeiladu ar gryfderau'r ysgol yn ddoeth. Yn ogystal, maent yn targedu'r meysydd i'w datblygu yn bwrpasol trwy weithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio strategol rheolaidd.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr ysgol yn mynd i'r afael â'r mater diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau bod arweinwyr yn monitro'r addysgu yn effeithiol ac yn darparu adborth adeiladol i unigolion i wella'u harfer ymhellach

A3 Herio'r holl ddisgyblion i berfformio ar eu gorau'n gyson, yn enwedig wrth ysgrifennu'n estynedig

A4 Sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol i ddatrys problemau yn fwy annibynnol ar draws y cwricwlwm

A5 Gwella'r ddarpariaeth i gefnogi'r addysgu a'r dysgu yn yr awyr agored yn y cyfnod sylfaen

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae tua hanner y disgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sy'n cyfateb i'r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac yn cyflawni'n dda. Mae llawer o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n gadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae llawer yn datblygu medrau llafar a gwrando effeithiol, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu dysgu. Maent yn hyderus ar lafar, yn sgwrsio'n huawdl ac yn gwrando'n astud ar eraill. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn esbonio'n glir pa wrthrychau sy'n suddo ac arnofio yn y twb dŵr. Mae medrau llafar Saesneg llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dda, yn enwedig wrth iddynt ymhelaethu am oes y Tuduriaid a digwyddiadau penodol fel Brwydr Bosworth.

Mae llawer yn datblygu medrau darllen pwrpasol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn darllen ystod diddorol o destunau yn eglur. Maent yn deall cynnwys eu llyfrau'n dda wrth ddarllen ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn fwriadus, trwy ddefnyddio strategaethau ffonig rheolaidd. Maent yn adnabod nodweddion cymeriadau cyfarwydd fel Elen Benfelen yn ddeallus, gan gynnig esboniadau synhwyrol am bwrpas ac effaith ei gweithredoedd. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn ynganu'n glir wrth ddarllen yn y ddwy iaith. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn ymchwilio'n ystyrlon ar y we, gan gynnwys olrhain hanes tref Llangefni a chreu llinell amser o fywyd y cantor enwog Elvis Presley. O ganlyniad, maent yn defnyddio eu medrau darllen uwch i ddarganfod gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn effeithiol.

Mae llawer, ar draws yr ysgol, yn ysgrifennu'n dda at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio ystod o gyd-destunau yn bwrpasol i gyfleu eu barnau personol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu darnau diddorol yn y Gymraeg. Mae enghreifftiau da yn cynnwys addunedau ar gyfer y flwyddyn newydd a llythyr caniatâd i ymweld â chanolfan arddio leol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n ystyrlon yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn cymharu byw yn y ddinas ac yng nghefn gwlad yn wybodus ac yn nodi'r gwahaniaethau rhwng nwyddau di-draidd, tryleu a thryloyw yn gywir. Fodd bynnag, nid yw ysgrifennu estynedig y disgyblion yn adlewyrchu eu gwir alluoedd, yn enwedig y mwyaf galluog.

Ar y cyfan, mae gan ran fwyaf y disgyblion, ar draws yr ysgol, ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau i ymestyn eu dealltwriaeth yn bwrpasol yn ystod gwersi. O ganlyniad, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn mesur taldra ei gilydd cyn creu graff bloc o'u canlyniadau. Yn ogystal, maent yn adnabod nodweddion siapiau yn dda wrth greu lluniau o ddeinosoriaid a dilyn cyfarwyddiadau yn gywir i fesur olion traed ar fuarth yr ysgol.

Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn amryw ffurf i gyflawni tasgau mathemategol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn astudio cynllun o dŷ newydd yn ofalus i ddarganfod perimedrau

ystafelloedd, arwynebedd yr adeilad a'r gost i osod carped trwy'r tŷ. Yn ogystal, maent yn hyderus wrth blotio cyfesurynnau ym mhedwar pedrant trwy ddefnyddio echelin llorweddol a fertigol yn gywir. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol sy'n dewis y dulliau mathemategol addas i gwblhau tasgau newydd yn annibynnol, heb arweiniad oedolyn. O ganlyniad, lleiafrif sy'n cymhwyso eu medrau rhifedd yn fwriadus i ddatrys problemau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn hyderus. Maent yn defnyddio llechi electronig i gywain gwybodaeth am nodweddion tymhorau'r flwyddyn fel dail yr hydref. Yn ogystal, maent yn defnyddio sgrîn werdd yn effeithiol i bortreadu stori'r geni a chreu basau data pwrpasol i gywain gwybodaeth am benblwyddi aelodau'r dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh da ar y cyfan, gan gymhwyso'u medrau'n synhwyrol a dethol y dulliau mwyaf effeithiol i gyflwyno'u gwaith. Maent yn creu fformiwlau yn annibynnol i adio a thynnu rhifau ar daenlen, a'i rhaglennu'n bwrpasol i adlewyrchu cywirdeb yr ateb mewn lliwiau gwahanol. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cyfrineiriau diogel yn fwriadus i gael mynediad i wefannau dysgu i gyflawni eu gwaith yn y dosbarth ac adref.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn cyfleu teimladau teyrngar am eu hysgol ac yn ymfalchïo bod perthnasoedd agos rhyngddynt â'r staff. Maent yn fodlon iawn i drafod unrhyw bryderon gyda'r staff ac yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. O ganlyniad, maent yn teimlo'n ddiogel o fewn naws gynhwysol a theuluol yr ysgol. Cefnogir yr ethos o deulu a chydymdeimlad at eraill yn effeithiol gan 'bydis y buarth'. Maent yn wyliadwrus ar y buarth ac yn barod i gynnig cymorth i ddisgyblion sy'n bryderus.

Mae'r rhan fwyaf ag agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn ymroi i'w gwaith yn bwrpasol yn ystod gwersi. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig, sy'n ymgymryd â phrofiadau newydd yn brydlon, fel peintio tirlun lliwgar o fyd y deinosoriaid. Mae parodrwydd y rhan fwyaf i drafod eu gwaith a chydweithio'n llwyddiannus â'u cyfoedion yn nodwedd gadarn ymysg disgyblion. O ganlyniad, maent yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau.

Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol. Maent yn mynegi barnau dilys am beth i ddysgu er mwyn datblygu eu dealltwriaeth ymhellach. Maent yn deall bod eu lleisiau'n bwysig i wella'u dysgu. Yn ogystal, maent yn manteisio ar gyfleoedd i ymweld â'r ardal leol, fel archifdy'r dref a melin wynt gyfagos. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cynefin yn ddeallus.

Mae ymddygiad bron pob disgybl tu mewn a thu allan i'r dosbarth yn dda iawn. Maent yn gwrtais ac yn parchu eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr. Maent yn manteisio ar sesiynau 'meddylfryd iach' i greu amgylchedd tawel ac i ystyried materion pwysig fel hawliau dynol a chyfiawnder. Mae hwn yn arfer werthfawr ac yn cyfrannu'n effeithiol i'w dyheadau. O ganlyniad, mae bron pob un ohonynt yn ymateb yn gadarnhaol i'r ethos cefnogol a ddarperir ar eu cyfer.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn cymryd rhan reolaidd mewn gweithgareddau ymarfer corff. Yn ogystal â'u gwersi, mae'r disgyblion hŷn yn manteisio ar amrywiaeth o weithgareddau diddorol i wella'u ffitrwydd, fel sesiynau pêl-droed a'r clwb rhedeg. Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o'r peryglon a all godi yn eu bywydau a gwyddant ba gamau i'w cymryd pe bai angen. Er enghraifft, mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd eu diogelwch ar-lein, ac yn amlinellu'r peryglon all godi yn sgil defnydd anghyfrifol o'r we.

Mae'r rhan fwyaf yn oddefgar a sensitif i anghenion a theimladau disgyblion eraill, sy'n debyg neu'n wahanol iddyn nhw. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal. Er enghraifft, deallant fod hawliau a thraddodiadau penodol yn perthyn i wahanol gredoau, fel Hindwiaid India. Yn ogystal, mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o bwysigrwydd cynaliadwyedd. Gallant egluro yn hyderus bwysigrwydd ailgylchu bwyd a nwyddau penodol fel papur a cherdyn. Maent yn wybodus am effaith llygredd a'r perygl sy'n bodoli i fyd natur trwy arferion anghyfrifol yr hil ddynol. Er enghraifft, maent yn ymateb ag arswyd i effaith niweidiol nwyddau plastig ar grwbanod y môr a draenogod.

Mae'r disgyblion sydd â dyletswyddau yn cymryd eu rolau o ddifrif. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r capteiniaid tîm yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn ddiwyd. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Maent yn ymfalchïo yn eu rolau'n fawr, gan eu bod wedi eu dewis trwy etholiad gan eu cyfoedion. Yn ogystal, mae'r cyngor eco yn weithredol ac mae'r llysgenhadon chwaraeon yn trefnu gweithgareddau difyr ar gyfer eu cyfoedion a'r disgyblion iau.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn trefnu amrywiaeth o brofiadau ysgogol, sy'n cynnwys ymweliadau gwerthfawr i sefydliadau hanesyddol fel tŷ Tuduraidd yng Nghonwy. Maent yn cynllunio themâu diddorol sy'n hybu'r dysgu ac yn ategu at wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynnwys syniadau disgyblion yn ystyrlon wrth gynllunio gwersi difyr, sy'n cynnal eu diddordeb a'u cymell i lwyddo. Mae'r defnydd effeithiol a wneir o fapiau meddwl yn cryfhau perchnogaeth y disgyblion o'u gwaith. Llwydda bron pob un o'r athrawon i wneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr lle gall bron pob grŵp o ddisgyblion ddysgu'n gynhyrchiol. Gwneir hyn trwy arddangosfeydd lliwgar ac apelgar, sydd yn werthfawr ac yn fuddiol wrth gefnogi'r addysgu a'r dysgu.

Mae'r ysgol yn llwyddo i ddarparu ar gyfer y cyfnod sylfaen o fewn y dosbarthiadau yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn yr awyr agored wedi ei datblygu i gefnogi a chyfoethogi'r addysgu a'r dysgu.

Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau yn effeithiol wrth gyflwyno gwersi,sy'n effeithio'n bwrpasol ar safonau rhan fwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae rhediad araf y cyflwyniadau yn cyfyngu ar allu'r disgyblion, yn enwedig y mwyaf abl, i gyrraedd hyd eithaf eu gallu.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn cefnogi'r dysgu yn fwriadus trwy gynnig ymyraethau arbenigol ac ysgogol. Mae'r berthynas waith gynhaliol sydd yn amlwg ymhob dosbarth yn meithrin parch a chwrteisi, ac yn creu naws ddysgu gynhyrchiol. Maent yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y disgyblion

maent yn eu cefnogi, sy'n cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae bron pob oedolyn yn modelu iaith raenus ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg safonol a chywrain yn gyson. O ganlyniad, mae safonau llafar llawer o'r disgyblion yn dda.

Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth ar gyfer meithrin medrau llythrennedd yn gadarn yn y ddwy iaith. Mae'r holl athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer cyflwyno gofynion statudol y cwricwlwm, ac i wella medrau llythrennedd y disgyblion trwy themâu diddorol. Mae'r themâu yn adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cofnodi hanes Llangefni yn yr oes a fu yn fwriadus. Mae'r athrawon yn cyflwyno profiadau diddorol a symbylus i'r disgyblion, sy'n effeithio'n dda ar eu medrau llafar a darllen yn ddyddiol. Er enghraifft, mae eu cyflwyniadau ystyrlon ar gymharu a gwerthfawrogi amrywiaethau dynol yn targedu medrau ysgrifennu'r disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae safonau addysgu mathemateg yn gadarn ar draws yr ysgol ac mae'r disgyblion yn derbyn profiadau cynhwysfawr o fewn y gwahanol agweddau cwricwlaidd. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm i'r un safon uchel a welir yn y gwersi mathemateg.

Mae'r athrawon yn datblygu medrau TGCh y disgyblion yn bwrpasol. Maent yn cynnig cyfleoedd diddorol ar draws yr ysgol i greu cyflwyniadau amrywiol, taenlenni a chofnodi eu profiadau ar lechi electronig. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae'r athrawon yn herio disgyblion i greu gronfa ddata ganghennog ar ddeinosoriaid. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymchwilio ar y we, cyn creu sgript sy'n portreadu deialog rhwng Harri'r VIII ac Anne Boleyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r trefniadau i sicrhau gofal a lles y disgyblion yn gryfder. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar iawn â naws deuluol, gynhwysol a hapus. Mae'r staff yn annog y disgyblion yn llwyddiannus i gydweithredu ac ymddwyn yn gwrtais. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus, yn dangos parch at eraill ac yn ymddwyn yn dda iawn.

Mae'r trefniadau i olrhain cynnydd y disgyblion yn gadarn. Gwneir defnydd effeithiol o ganlyniadau asesu i fesur cynnydd disgyblion. Mae'r weithdrefn yn adnabod y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn trefnu cymorth pwrpasol, drwy weithgareddau penodol fel sesiynau ffonig, sy'n llwyddo i wella cyflawniadau'r disgyblion. Yn ogystal, mae'r cymorthyddion yn cefnogi disgyblion yn ystyrlon mewn sesiynau ymyrraeth defnyddiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni eu targedau gwelliant personol.

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn llwyddianus ac yn cydweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth ofalgar, fel a geir yn y dosbarth maethu cynhwysol. Mae hyn yn datblygu lles a medrau cymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i sicrhau bod y disgyblion yn medru gwneud dewisiadau synhwyrol am sut i gadw’n ddiogel, er enghraifft wrth ddefnyddio’r we a gwisgo gwregys diogelwch mewn ceir. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, tynnodd y tîm arolygu sylw arweinwyr yr ysgol at fater iechyd a diogelwch.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol yn gadarn iawn. Mae traddodiad cryf o gynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion berfformio mewn cyngherddau ac eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at fagu hunanhyder llawer ohonynt, yn ogystal â’u hymwybyddiaeth o’u hetifeddiaeth Gymreig a’u hardal leol. Gwneir defnydd gwerthfawr o weithgareddau celfyddydol i ehangu profiadau diwylliannol y disgyblion, er enghraifft trwy gydweithio ag artist lleol a chymryd rhan yng ngherddorfa a chôr yr ysgol. Mae hyn yn hyrwyddo medrau mynegiannol y disgyblion yn dda ynghyd â’u hyder i weithio gydag eraill yn effeithiol.

Mae’r berthynas rhwng yr ysgol a’r rhieni yn dda. Maent yn derbyn gwybodaeth trwy gyfryngau cymdeithasol a llythyrau, ac o’r herwydd, maent yn ymwybodol o weithgareddau a digwyddiadau’r ysgol. Mae’r staff yn darparu sesiynau hyfforddiant defnyddiol ar gyfer y rhieni i wella’u hymwybyddiaeth o weithdrefnau cyfoes y byd addysg, fel dulliau addysgu’r cyfnod sylfaen. O ganlyniad, mae gwell syniad gyda’r rhieni am sut i helpu eu plant gartref.

Mae trefniadau buddiol yn bodoli i helpu’r disgyblion i wneud penderfyniadau doeth, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd i’r cyngor ysgol fynegi barn i wella safonau, lles a phrofiadau diwylliannol Cymreig y disgyblion. O ganlyniad, mae’r ysgol yn cynnal clwb gwaith cartref, clwb rhedeg ac maent yn chwarae cerddoriaeth Gymraeg gyfoes yn gyhoeddus yn ddyddiol.

Mae amrediad gwerthfawr o weithgareddau corfforol, gan gynnwys clybiau chwaraeon ar ôl ysgol, sy’n llwyddo i hyrwyddo ffitrwydd y disgyblion a magu eu brwdfrydedd i gadw’n iach. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn gwerthu ffrwythau yn ystod y dydd, sy’n hybu bywydau iachus.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion gyfrannu i weithgareddau o fewn y gymuned, fel ‘Sul y Maer’ ac i godi arian at achosion da. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o’u hardal leol ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol o fewn y gweithgareddau lleol a thu hwnt. Yn ogystal, mae gwasanaethau dyddiol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn effeithiol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth, staff a llywodraethwyr weledigaeth eglur, sy’n cael ei seilio ar arwyddair yr ysgol, sef ‘Y Graig sy’n Sylfaen’. Mae’r ysgol yn cynnig dechreuad cadarn i'r disgyblion, sy’n caniatáu iddynt lwyddo trwy ddatblygu ymhellach eu safonau a’u lles. Mae’r ysgol yn ehangu gorwelion a dyheadau’r disgyblion yn effeithiol, er mwyn meithrin dealltwriaeth realistig o'r hyn sydd tu hwnt i’w milltir sgwâr. Mae’r weledigaeth strategol hon yn arwain at ethos hynod ofalgar, diogel a chynhwysol ar draws yr ysgol, sy’n sicrhau bod disgyblion yn cyflawni’n dda.

Mae strwythur staffio clir gan yr ysgol ac mae disgwyliadau pob rôl wedi eu diffinio'n bendant yn erbyn cyfrifoldebau penodol. Mae trefniadau cyfarfodydd staff yn gadarn ac yn creu rhwydwaith o gyfathrebu effeithiol sy'n creu ffocws pwrpasol ar godi deilliannau'r disgyblion. Mae'r pennaeth yn amserlennu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn ddoeth, mewn modd sy'n rhyddhau staff o'r un blynyddoedd ysgol ar yr un pryd. Mae hyn yn fodd effeithiol o rannu arbenigeddau a sicrhau cysondeb ynglŷn â'u cynllunio, eu harferion asesu a'u disgwyliadau. O ganlyniad, mae'r weithdrefn yn caniatáu staff i gyd-graffu a chymedroli gwaith disgyblion a chysoni'r ddarpariaeth yn fwriadus.

Mae gweithdrefnau effeithiol yn bodoli ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a'r cymorthyddion. Maent wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ac yn mynd i'r afael yn llwyddiannus ag anghenion datblygiad personol y staff. Er enghraifft, maent yn ymdrechu ar hyn o bryd i dargedu annibyniaeth disgyblion ar lawr y dosbarth.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr gan yr ysgol. Mae cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau hunanwerthuso a'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol. Mae'r ysgol yn diffinio blaenoriaethau'n dda a'u targedu'n synhwyrol i fesur cynnydd ac i adnabod agweddau sydd angen sylw pellach. Mae amserlen fanwl ar gyfer arsylwi gwersi, teithiau dysgu ac ar graffu ar waith disgyblion, sy'n arwain yn bwrpasol at adroddiadau monitro effeithiol. Maent yn dangos yn glir y mannau sydd angen sylw. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn monitro'r argymhellion dilynol o'r adroddiadau craffu yn ddigon trylwyr, yn enwedig wrth geisio gwella agweddau o'r addysgu ac atebolrwydd unigolion i'w rolau yn yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn cynnig arweiniad pwrpasol ac yn gosod her effeithiol i'r ysgol. Maent yn ymweld â'r ysgol i werthuso effaith gweithgareddau ar ddeilliannau'r disgyblion yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn trafod yn hyderus y gwelliannau diweddar yng ngallu'r disgyblion i wneud penderfyniadau a magu annibyniaeth yn eu dysgu. Maent yn monitro gwariant ac effeithiolrwydd adnoddau yn synhwyrol, sy'n cynnwys defnydd da o'r arian wrth gefn i gynnal darpariaeth gynhwysol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, maent yn cyfrannu'n dda at fywyd a llwyddiant yr ysgol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad fel ffrindiau beirniadol.

Mae'r pennaeth, yr uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr yn ffocysu'n dda ar ddefnyddio pob twll a chornel yn yr adeilad i gefnogi dysgu a chynnydd y disgyblion. Er enghraifft, maent newydd greu dosbarth maethu i dargedu anghenion penodol disgyblion bregus yn y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, mae diffyg yn y ddarpariaeth awyr agored yn y cyfnod sylfaen. Nid yw'r adnoddau yn yr ardal allanol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn ddigon llwyddiannus i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd creadigol iawn o'r grant datblygu disgyblion er mwyn bodloni anghenion eu disgyblion mewn modd sy'n eu gwneud yn fwy parod i ddysgu. Er enghraifft, maent yn cyflogi swyddog lles a therapydd chwarae, sy'n hynod lwyddiannus wrth wella hunan-barch y disgyblion a'u medrau cymdeithasol. Yn ogystal, mae'r swyddog lles yn ddolen gyswllt werthfawr rhwng teuluoedd bregus a'r ysgol, sy'n gwella presenoldeb disgyblion unigol yn effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2019

This page is intentionally left blank

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Pentraeth
# Pentraeth
# Ynys Môn
# LL75 8UP

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Pentraeth

Lleolir Ysgol Gymunedol Pentraeth yng nghanol y pentref ger tref Porthaethwy yn awdurdod lleol Ynys Môn. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae 111 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Tua 43% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Dros dreigl tair blynedd, tua 8% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 32% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndiroedd gwyn Prydeinig ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Mawrth 2009 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r pennaeth yn adnabod yr ysgol a’r holl ddisgyblion yn dda iawn. Mae wedi datblygu staff sy’n cydweithio’n effeithiol i hyrwyddo gweledigaeth gadarn yn llwyddiannus.

Un o gryfderau’r ysgol yw’r modd mae’r staff yn cydweithio’n effeithiol a llwyddiannus gan feithrin a chynnal perthynas waith dda â’r disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion, yn arbennig yn y cyfnod sylfaen.

Mae dylanwad llais y disgyblion yn un o gryfderau’r ysgol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ynghylch ymgymryd â swyddi cyfrifoldeb. Mae gwaith aelodau'r gwahanol bwyllgorau a grwpiau disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles cyfoedion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sefydlu strwythur arweinyddiaeth hylaw drwy ddosrannu cyfrifoldebau yn fwy effeithiol

A2 Sicrhau bod yr addysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn herio pob disgybl yn gyson, a gwneud gwell defnydd o system olrhain cynnydd er mwyn miniogi’r ddarpariaeth ar gyfer y mwy abl

A3 Cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg gan ddisgyblion mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac o fewn y dosbarthiadau

A4 Mynd i’r afael â’r materion diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, lleiafrif o’r disgyblion sy’n cyrraedd â medrau sy’n agos i’r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn.

Mae llawer o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafaredd gan wrando’n astud yn y gwersi a dangos dealltwriaeth o gyfarwyddiadau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn cyfathrebu’n glir ac yn datblygu eu medrau llafar yn gynyddol hyderus. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu’n glir yn y Gymraeg a’r Saesneg ac yn cyfrannu’n bwrpasol yn y ddwy iaith mewn trafodaethau dosbarth. Maent yn defnyddio geirfa ymestynnol i greu effaith, er enghraifft wrth drafod bwlian ar hunanddelwedd plentyn. Mae mwyafrif yn dangos balchder tuag at y Gymraeg; fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn tueddu i droi i gyfathrebu â'i gilydd yn Saesneg yn eu gwersi ac mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol.

Mae medrau darllen rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu’n gadarn. Maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffoneg yn hyderus i ddarllen geiriau newydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn gynyddol hyderus a chyda lefel dda o gywirdeb, rhuglder a dealltwriaeth o’r hyn maent yn ei ddarllen. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cryf yn eu darllen yn y Gymraeg a’r Saesneg. Maent yn mynegi hoffter at lyfrau ac yn trafod yn ddeallus gan gyfeirio’n synhwyrol at nodweddion gwahanol destunau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn datblygu uwch fedrau wrth gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth astudio Streic y Penrhyn.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu’n gynyddol annibynnol at wahanol bwrpasau. Enghraifft dda o hyn yw’r disgyblion uwch eu gallu yn ysgrifennu adroddiad papur newydd ar stori Grace Darling, gan ddangos gafael dda ar eirfa, cystrawen ac atalnodi. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf yn defnyddio ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Maent yn cyflwyno’u syniadau yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu sgript rhaglen newyddion. Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn strwythuro eu gwaith yn effeithiol gan ddangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu, ac atalnodi, gan greu effaith yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni parod yn cyfyngu’r disgyblion mwy abl rhag ysgrifennu’n rhydd yn rheolaidd a chyflawni hyd eithaf eu gallu.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o fedrau rhif. Yn y dosbarth derbyn, maent yn defnyddio arian yn bwrpasol i ddatrys problemau trwy gymhwyso eu medrau rhifedd i brynu nwyddau hyd at 10c. Maent hefyd yn medru creu graff bloc i nodi sut mae creaduriaid yn symud trwy lithro, hedfan neu gropian. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn gallu prynu tân gwyllt siapau 3D yn effeithiol trwy ddefnyddio darnau 20c, 50c a £1. Enghraifft nodedig o’r ffordd mae'r disgyblion yn atgyfnerthu ystod o fedrau rhifedd yn ymarferol yw trwy ddefnyddio unedau mesur ansafonol i fesur boncyff ar dir yr ysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o weithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu yn gadarn. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn

gallu adalw gwybodaeth flaenorol am ffracsiynau cywerth yn dda wrth gymharu maint ffracsiynau.  Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso’u medrau rhifedd yn hyderus mewn sefyllfaoedd bob dydd.  Enghraifft o hyn yw'r ffordd maent yn mesur uchder mynyddoedd a phellter ar draws mynyddoedd Eryri.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu ystod o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus ac yn eu cymhwyso’n hyderus ar draws y meysydd dysgu.  Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn datblygu medrau rheoli cynnar wrth lywio’r tegan rhaglenadwy yn fwriadus.  Mae llawer yn datblygu medrau creadigol ac ieithyddol mewn ffyrdd buddiol trwy ddefnyddio apiau i gyfleu hanes yr Hugan Fach Goch.  Yng nghyfnod allweddol 2, yn gyffredinol, mae disgyblion yn adeiladu’n briodol ar eu medrau TGCh blaenorol.  Mae llawer yn ymchwilio i hanes y Celtiaid ac yn cyflwyno’r wybodaeth yn bwrpasol.  Maent hefyd yn datblygu medrau rhaglennu cynnar yn dda wrth gynllunio gêm gyfrifiadurol.  Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ddefnyddio taenlenni i fodelu nac i ddefnyddio a chroesholi cronfa ddata wedi datblygu i’r lefel briodol.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion falchder amlwg tuag at yr ysgol yn ogystal â'u llwyddiannau yn Eisteddfod yr Urdd.  Maent yn ymfalchïo yn eu cymuned ac yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau, fel canu a gwneud gweithgareddau yn y cartref henoed lleol, sy’n hybu pontio a dealltwriaeth ar draws oedrannau yn llwyddiannus iawn.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn teimlo'n bryderus.  Mae rhan fwyaf yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw’n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus, yn gwrtais ac yn barchus iawn tuag at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr.  Mae hyn yn gryfder amlwg ar draws yr ysgol ac yn arwain at safonau da mewn ymddygiad a disgyblaeth gan ran fwyaf y disgyblion.  Elfen gref arall yw'r ffordd mae rhan fwyaf y disgyblion yn trin a thrafod ymhlith ei gilydd mewn modd ystyrlon a pharchus mewn gwersi ac o fewn y gwahanol bwyllgorau.

Mae ymwybyddiaeth gadarn gan ran fwyaf o’r disgyblion am bwysigrwydd bwyta’n iach a chadw’n heini a’r effaith gadarnhaol mae hyn yn ei chael ar iechyd.  Mae mwyafrif y disgyblion yn mwynhau ac yn elwa o weithgareddau corfforol wythnosol.  Yn y cyfnod sylfaen, maent yn datblygu medrau rheoli pêl a chydbwyso ac, yng nghyfnod allweddol 2, maent yn elwa o hyfforddiant cylched cadw’n heini.  Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae pob disgybl yn mwynhau gweithgareddau morol heriol fel caiacio, hwylio a gweithgareddau mentrus fel cerdded gyda chymorth rhaffau ar uchder.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos lefelau uchel o ddyfalbarhad ac maent yn elwa o raglen benodol i’w galluogi i wella eu dysgu’n annibynnol a pheidio â bod ofn gwneud camgymeriad.  O ganlyniad, mae rhan fwyaf yn datblygu’n  ddysgwyr hyderus sy'n dangos gwydnwch pan fyddant yn wynebu heriau neu sefyllfaoedd newydd yn eu gwaith.  Enghraifft benodol o hyn oedd gallu disgybl i gofio’r medrau gwydnwch wrth wynebu sefyllfa newydd yn y pwll nofio.

Mae llais y disgybl yn cael sylw amlwg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, ac mae'r disgyblion ym mwynhau'r cyfrifoldebau. Trwy'r cynghorau amrywiol, mae disgyblion yn ymfalchïo yn yr hyn y maent yn ei gyflawni. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r disgyblion yn trefnu disgos i brynu diffibriliwr i'r gymuned a thyfu a gwerthu perlysiau. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i fynegi barn am yr hyn y maent am ei ddysgu, trwy gyfrannu at gynllunio themâu'r tymor. Enghraifft dda yw'r modd mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cyfrannu at y thema, "Chwarelwr Ydw i." O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymroi'n llwyr i'r tasgau ac yn cydweithio'n gadarn gydag eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd ac mae'r ysgol wedi llwyddo gyda mentrau diweddar i sicrhau bod canran presenoldeb yr ysgol yn gwella. Fodd bynnag, nid yw prydlondeb ychydig iawn yn ddigon da.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Un o gryfderau'r ysgol yw gallu'r athrawon i feithrin a chynnal perthynas waith gefnogol â'r disgyblion. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar safonau a lles disgyblion. Maent yn creu awyrgylch ddysgu ysgogol yn y gwersi, yn arbennig felly yn y cyfnod sylfaen. Mae'r athrawon yn cyflwyno'n ddiddorol ac yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae staff yn modelu iaith yn effeithiol ac mewn dulliau sy'n ennyn ymateb disgyblion. Er enghraifft, gwneir defnydd o ganeuon 'rap' gwreiddiol i gyflwyno rhifolion a threigladau drwy ddull llawn hwyl. Yn ogystal, mae athrawon y cyfnod sylfaen yn gwneud defnydd pwrpasol iawn o apiau i ddatblygu patrymau iaith. Mae hyn yn cryfhau medrau llafar y disgyblion yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ieithyddol y disgyblion. Mae hyn yn arbennig o wir am y rhai o gefndiroedd di-Gymraeg a'r disgyblion hynny y mae'r Gymraeg yn hollol newydd iddynt.

Mae'r athrawon yn cynnal ei gilydd ac yn cydweithio'n effeithiol. Enghraifft o hyn yw staff y cyfnod sylfaen yn cyd-drefnu a chynllunio er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau'r disgyblion. Mae'r cydweithio effeithiol a llwyddiannus rhwng yr athrawon a'r staff cefnogi yn gryfder ac yn cynnig cymorth i ddisgyblion yn unol â'u hanghenion. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i gwblhau eu tasgau'n llwyddiannus ac i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu i wneud cynnydd cadarn.

Mae'r athrawon yn rhannu nod y wers gyda'r disgyblion yn gyson ac yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt adolygu a gwerthuso eu gwaith. Maent yn esbonio'r tasgau'n glir ac yn holi'n bwrpasol er mwyn sicrhau bod gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn. Maent yn rhoi adborth buddiol i'r disgyblion am sut i wella eu gwaith ymhellach, ond nid ydynt yn rhoi cyfleoedd digon cyson i'r disgyblion ymateb i'r sylwadau a gweithredu arnynt.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus iawn ac yn un o gryfderau amlwg yr ysgol. Maent hefyd yn dechrau cael eu defnyddio yng ngwaelod cyfnod allweddol 2 fel paratoad ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae defnydd dychmygus a phwrpasol o'r ardal ddysgu allanol i sicrhau profiadau dysgu cyfoethog. Mae hyn yn datblygu medrau ac annibyniaeth y disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gweithgareddau anturus yn fodd effeithiol o ehangu profiadau dysgu'r disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r gweithgareddau ysgol

goedwig a'r profiadau gweithio fel tîm ar y dŵr yng ngwersyll Glanllyn. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar wneud defnydd effeithiol o ymweliadau addysgol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm, er enghraifft wrth ymweld â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i ddysgu am y diwydiant llechi ac amodau gwaith y chwarelwyr.

Mae athrawon yn cynllunio'n fanwl ac effeithiol ac mae hyn yn arwain at weithgareddau dysgu amrywiol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus. Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu tasgau wedi eu teilwra i fodloni'r ystod eang o allu disgyblion yn dda, yn arbennig felly'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau ar bob achlysur yn herio disgyblion mwy abl yn ddigon effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyson a chyfoethog i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gyson ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael cyfleoedd i ddatblygu'r ystod lawn o fedrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn bennaf gan nad yw disgyblion yn cael cyfleoedd i ddefnyddio taenlen i fodelu nac i groesholi cronfa ddata.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae lles a gofal disgyblion yn hollol ganolog i fywyd yr ysgol. Nodwedd arbennig yw'r ethos teuluol a gofalgar sy'n sicrhau bod disgyblion a'r staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n yn hapus a diogel yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu'n fwriadus ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd a pharchu amrywiaeth, ynghyd â chyfleoedd i ddysgu am masnach deg i sicrhau byd tecach. Mae pwyslais canolog ar feithrin perthnasoedd cadarnhaol ac mae'r disgyblion yn arddangos cwrteisi wrth ymdrin â'i gilydd ac oedolion, yn cynnwys ymwelwyr. Mae strategaethau llwyddiannus ar gyfer annog disgyblion i gyd-chwarae a gofalu am ei gilydd yn ystod adegau egwyl.

Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae dylanwad ymgyrchoedd y cyngor ysgol ar fwyta'n iach yn cyfrannu'n bositif tuag at arferion eu cyd-ddisgyblion drwy eu hannog i yfed dŵr yn gyson ac i fwyta ffrwythau adeg egwyl. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar hybu iechyd corfforol drwy wersi ymarfer corff ac ystod o weithgareddau awyr agored heriol. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu strategaeth magu hyder a gwydnwch sy'n hyrwyddo ymagweddau dysgu cadarnhaol ymhlith y disgyblion ac yn datblygu eu hannibyniaeth fel dysgwyr yn llwyddiannus.

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn adnabod y disgyblion yn dda iawn. Mae gan yr ysgol systemau addas ar gyfer olrhain lles a chynnydd disgyblion ac maent yn teilwra gweithgareddau i fodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion o fewn eu dosbarthiadau. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r systemau olrhain cynnydd yn ddigon effeithiol i ymateb i anghenion disgyblion uwch eu gallu yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda iawn ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn cymryd camau priodol i fodloni eu hanghenion yn effeithiol. Maent yn darparu cynlluniau addysg unigol pwrpasol ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn gyson yn y broses o'u llunio a'u hadolygu. Mae'r staff yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn fedrus ac yn darparu rhaglenni cymorth pwrpasol iawn ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn, gefnogol a chydweithiol gyda rhieni, gyda'r polisi drws agored yn cael ei werthfawrogi. Mae'r ysgol yn barod i wrando ar eu safbwyntiau ac awgrymiadau ac yn eu croesawu i chwarae rhan ym mywyd yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r rhieni yn cynorthwyo gyda rhedeg y clwb coginio. Mae cymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol yn weithgar ac yn cynnal rhaglen o weithgareddau codi arian i gefnogi'r ysgol. Trwy hyn, maent yn galluogi'r ysgol i gynnig amrywiaeth o weithgareddau allanol a phrynu offer TGCh.

Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau amrywiol gyda'r gymuned leol. Gwahoddir ymwelwyr o'r gymuned fel aelodau o'r bad achub, ficer, parafeddyg ac amrywiaeth o feirdd, llenorion, cerddorion ac artistiaid i'r ysgol i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r ysgol yn adnabod cyfleoedd rheolaidd i gynnal gweithgarwch elusennol ac mae'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd helpu eraill llai ffodus, er enghraifft y deillion.

Mae'r ysgol yn datblygu llais y dysgwr yn effeithiol iawn drwy nifer o gynghorau ysgol. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau ac i wneud penderfyniadau ac yn gyfrwng effeithiol i ddatblygu ystod eang o fedrau. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r pwyllgor eco wedi datblygu gardd perlysiau a gwerthu'r cynnyrch o fewn y gymuned leol .

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol iawn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol drwy amrywiol weithgareddau sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cydweithio ag artistiaid celf lleol a chyfle i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 fanteisio ar hyfforddiant offerynnol. Mae'r ysgol wedi cael llwyddiant mewn cystadlaethau lleisiol ar lefel genedlaethol drwy Eisteddfodau'r Urdd.

Yn ystod yr arolygiad, tynnwyd sylw'r ysgol at ychydig o faterion diogelwch. Ar y cyfan, mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn adnabod yr ysgol a'r holl ddisgyblion yn dda iawn. Mae ganddi weledigaeth gadarn ar gyfer creu ysgol gyfeillgar a hapus sy'n rhoi pob anogaeth i'r disgyblion ddysgu a datblygu hyd eithaf eu gallu. Mae'n angerddol yn sicrhau bod y weledigaeth yn weithredol ym mhob dosbarth ac mae'n gallu monitro hyn yn wythnosol gan ei bod yn addysgu ym mhob dosbarth yn ei dro. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r holl staff yn hyrwyddo'r weledigaeth yn llwyddiannus ac yn cydweithio'n dda i ddatblygu darpariaeth yr ysgol a chodi safonau.

Mae bron pob aelod staff yn ymwybodol o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn datblygu’n effeithiol fel tîm. Mae’r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i’r rhan fwyaf o flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae’r pennaeth wedi sicrhau bod athrawes newydd wedi cael cefnogaeth fuddiol iawn i sicrhau bod gofynion y cyfnod sylfaen yn cael eu diwallu yn hynod o effeithiol. Mae’r pennaeth wedi cychwyn dosrannu cyfrifoldebau arwain i nifer ehangach o staff. Fodd bynnag, nid yw’r cyfrifoldebau wedi eu rhannu’n ddigon effeithiol eto er mwyn datblygu medrau arwain eraill yn llawn ac ysgafnhau baich y pennaeth.

Mae gan aelodau’r corff llywodraethol ymwybyddiaeth dda o’r hyn sy’n gweithio’n effeithiol yn yr ysgol ynghyd â’r materion sydd angen eu gwella. Maent yn cefnogi’r ysgol yn llwyddiannus ac yn herio’r pennaeth pan fo angen. Enghraifft ddiweddar o hyn yw herio’r targedau ar gyfer safonau disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol iawn o arbenigedd aelodau’r corff, yn arbennig ym maes anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan yr arweinwyr weithdrefnau pwrpasol i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a safonau. Maent yn cynnwys y staff a’r llywodraethwyr yn y prosesau craffu ar lyfrau a theithiau dysgu ac yn ymgynghori â rhieni a disgyblion fel rhan o’r broses. Ar y cyfan, mae adroddiadau sy’n deillio o’r broses yn gywir ac arfarnol ac yn adnabod y cryfderau a’r materion i’w gwella yn llwyddiannus.

Mae blaenoriaethau’r cynllun datblygu presennol yn seiliedig a’r ganfyddiadau uniongyrchol o’r gweithdrefnau hunanwerthuso’r ysgol. Mae’r ddogfen yn cynnwys targedau pwrpasol, atebolrwydd clir ac amserlen ymarferol. Fodd bynnag, mae’r cynllun yn rhy faith ac yn cynnwys gormod o wybodaeth amlinellol cyn dod at y prif flaenoriaethau. Mae ymgais at werthusiad o’r cynllun blaenorol ond nid yw’n defnyddio’r targedau gwreiddiol i fesur cynnydd yn ddigon cyson. Er hynny, mae hanes llwyddiannus gan yr ysgol o sicrhau gwelliannau, er enghraifft o ran y ddarpariaeth gadarn yn y cyfnod sylfaen a datblygu safonau llafar ac ysgrifennu Cymraeg ar draws yr ysgol.

Mae lefelau staffio’r ysgol yn bodloni’r angen ac mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i reoli perfformiad athrawon. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth i wireddu blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol ynghyd ag anghenion proffesiynol unigol. Gwneir defnydd effeithiol o ymweliadau i weld arfer dda mewn ysgolion cyfagos i fodloni blaenoriaethau'r cynllun datblygu. Enghraifft o hyn yw’r gefnogaeth i ddatblygu dulliau i herio disgyblion mwy abl ar frig yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o athrawon o ganolfan dyslecsia i gefnogi disgyblion unigol a grwpiau penodol o ddisgyblion mewn amrywiaeth o ymyraethau a strategaethau. Mae hyn yn un o gryfderau’r ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar les a safonau’r unigolion hyn. Er enghraifft, mae’n datblygu hunan-barch disgyblion, yn hyrwyddo gwydnwch a dyfalbarhad ac yn eu hannog i beidio â bod ofn gwneud camgymeriadau.

Mae grantiau’n cael eu hanelu’n briodol er mwyn cyfoethogi’r ddarpariaeth ac ehangu adnoddau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar wella safonau llythrennedd grwpiau o ddysgwyr. Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn monitro defnydd o’r gyllideb yn ofalus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2019

This page is intentionally left blank

**Enw'r Ysgol:** **Ysgol Y Talwrn**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

| **Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**<br>***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?*** |
|---|
| Mae'r bron bob plentyn yng NghA2 yn ymchwilio yn aeddfed a sensitif i wahanol gredoau ac yn dangos goddefgarwch tuag eraill.<br>O ganlyniad i'r ffaith fod disgyblion Mwslemaidd yn yr ysgol, mae bron bob plentyn yn dangos dealltwriaeth naturiol o agweddau o Islam e.e. ymprydio, deiet, gwyliau crefyddol<br>Mae gan mwyafrif disgyblion y CS ddealltwriaeth da o straeon Cristnogol megis Pasg a Nadolig ac erbyn diwedd y CS mae bron bob plentyn yn gallu trafod agweddau o Gristnogaeth erbyn diwedd blwyddyn 2.<br>Mae'r plant yn ymwybdol o arferion a staeon Cristnogol e.e. stori Dewi Sant, Mari Jones, Dydd Mawrth yr Ynyd |
| Nodiadau:<br>Dros y flwyddyn academaidd nesaf, mae angen ail edrych ar, a datblygu gynlluniau gwaith cyfoes er mwyn sicrhau eu bod yn ateb gofynion. |
| **Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: ddigonol** |

| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** |
|---|
| • Bu Prosiect heddychlon yn yr ysgol am gyfnod o 10 wythnos yn cydweithio gyda disgyblion blwyddyn 5/6 – cafwyd adborth bositif am eu gallu i fyfyrio gan y gwirfoddolwyr ac ar ffurf hunan asesiad mewn holiadur.<br>• Mae gan y disgyblion berthynas bositif hefo aelodau o'r capeli lleol ac mae ganddynt ddealltwriaeth cadarn o'r modd mae disgwyl iddynt ymddwyn mewn man addoli.<br>• Dengys ein gwasanaethau "diolch" wythnosol, yn ogystal a gwasanaeth boreuol dyddiol, fod pob un plentyn yn gallu myfyrio yn dawel am funud cyfan ac mae llawer yn codi llaw i rannu yr hyn maent wedi fyfyrio arno.<br>• Mae plant CA2 yn dangos sensitifrwydd ac aeddfedrwydd wrth gefnogi 4 o'u cyfoedion yn yr ysgol yn ystod cyfnod ymprydio Ramadan.<br>• Mae traddodiad cryf o gynnal gwasanaeth Nadolig crefyddol h.y. mae stori'r geni yn plethu i fewn i bob Sioe Nadolig ac o ganlyniad mae pob plentyn yn deall pwysigrwydd Cristnogol Stori'r Geni. Mae'r plant hefyd yn cael cynnig cymryd rhan mewn gwasanaeth Carolau pentrefol ac mae'r mwyafrif yn mynychu. O ganlyniad, maent yn adnabod nifer o garolau traddodiadol yn ogystal a chaneuon Cristnogol mwy cyfoes.<br>• Mae llawer o GA2 yn ymwybodol o hawliau'r plentyn ac yn benodol Erthygl 14 a'r hawl i bob plentyn ddilyn ei grefydd ei hun. |
| Nodiadau:<br>Dros y flwyddyn academaidd nesaf, mae angen ail edrych ar, a datblygu gynlluniau gwaith cyfoes er mwyn sicrhau eu bod yn ateb gofynion. |
| **Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Da** |

| **Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**<br>***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog*** |
|---|
| • Mae adroddiadau craffu yn dangos fod plant yn dysgu am arferion a chredoau Cristnogol – Pasg, Nadolig, straeon Dewi Sant ac hefyd credoau eraill megis Siciaiaith.<br>• O ganlyniad i ddiwrnod Sicaidd, mae llawer o GA2 yn dangos dealltwriaeth o wahanaethau a thebygrwydd rhyngddynt a phlentyn Sicaidd (bu'r plant yn bwyta bwyd indiaidd, creu dawnsfeydd indiaidd, creu patrymau rangoli a pheintio enghreifftiau o ddwylo henna)<br>• Bu'r plant ar daith i Moelfre i ymweld âg Eglwys Llanallgo a dysgu am waith Stephen Roose Hughes a'i rol yn cefnogi'r gymuned a theuluoedd yn eu galar yn dilyn trychineb y Royal Charter. |

| |
|---|
| • Mae llawer o blant CA2 yn dangos dealltwriaeth o fanau addoli ac yn cymharu gwahanol ddysgeidiaethau. |
| Nodiadau: Dros y flwyddyn academaidd nesaf, mae angen ail edrych ar, a datblygu gynlluniau gwaith cyfoes er mwyn sicrhau eu bod yn ateb gofynion. |
| **Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Digonol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?** ***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?*** | | | | |
| • Mae athrawon yn cynnig gwahanol safbwyntiau wrth gyflwyno addysg grefyddol e.e. gwahanol ddehongliadau o stori'r creu/ barn Gwyddonwyr ac yn annog a chaniatau trafodaeth aeddfed ar y credoau yma, gan warchod hawl pob plentyn i lunio ei farn ei hun.<br>• Bu Prosiect heddychlon yn yr ysgol am gyfnod o 10 wythnos yn cydweithio gyda disgyblion blwyddyn 5/6 – cafwyd adborth bositif am eu gallu i fyfyrio gan y plant eu hunain a gan y gwirfoddolwyr.<br>• Addoli ar y cyd – mae gan yr ysgol draddodiad cryf o wasanaeth dyddiol yn y neuadd, ac mae pob aelod o staff yn gyfrifol am wasanaeth yn ei dro. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys elfen o fyfyrio, canu, elfen grefyddol ac elfen o ddangos diolch am yr hyn rydym wedi ei fwynhau pob wythnos.<br>• Mae'r cysyniad o Feddylfryd o Dwf hefyd yn gyfle i blant fyfyrio ar lwyddiannau a thrafferthion a chamgymeriadau enwog ac mae hyn yn dylanwadu ar y ffordd maent yn ymdrin â rhwystrau.<br>• Mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r addoli.<br>• Mae ESTYN yn nodi (Hydref 2018) "Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau am amrywiaeth, gwrth hiliaeth a datblyg tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau amlwg o ddiwylliant yr ysgol"<br>• Mae ESTYN hefyd yn nodi "Mae medrau cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion yn datblygu'n llwyddianus iawn"<br>• Mae bocs pryderon yr ysgol yn ffordd effeithiol iawn o gyfathrebu gofidion unrhyw blentyn hefo'r staff<br>• Gwna'r ysgol ddefnydd blynyddol o'r capeli lleol ar gyfer gwasanaethau megis Diolchgarwch, ac mae gweinidog lleol yn rhoi pregeth fer i'r plant fel rhan o'r gwasanaeth. Mae gwirfoddolwyr o'r Eglwys hefyd yn dod draw yn flynyddol i gynnal gwasanaeth Cristingl hefo'r plant. | | | | |
| Mae hinsawdd gefnogol naturiol yr ysgol a'r traddoiad o wasanaethau boreuol dyddiol ysgol gyfan yn nodweddion cryf. | | | | |
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | **x** | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: Da** | | | | |

| |
|---|
| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?** ***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG<br>• Mae gan yr ysgol berthynas dda iawn gyda'r capeli a'r Eglwys leol ac mae hyn yn esgor ar brofiadau a chyfleoedd i'r plant addoli mewn manau crefyddol.<br>• Mae gwybodaeth pwnc y cydlynydd yn dda ac mae hyn yn sicrhau fod dealltwriaeth da ganddi wrth graffu ar lyfrau ac wrth roi arweiniad i staff eraill.<br>• Mae trefniadau ar gyfer addoli ar y cyd yn dda iawn ac mae'r trefniadau yma yn weithredol ers blynyddoedd – mae hyn yn nodwedd gadarn ac mae pob athro yn cyfrannu yn effeithiol at hyn. |

| |
|---|
| • Yn sgil y cwricwlwm newydd, a’r newidiadau i gynlluniau, mae angen sicrhau sylw haeddiannol i Addysg Grefyddol ac mae angen rhoi meddwl pellach i hyn dros y flwyddyn nesaf a’i ystyried fel is-flaenoriaeth ar y CDY er mwyn codi safonau ymhellach. |
| Nodiadau: Ystyried ffyrdd o godi proffil y pwnc a datblygu cynlluniau ymhellach. |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: Digonol** |

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu’r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Enw’r pennaeth**
**Llinos Edwards Goosey**
**Llofnod y pennaeth Ll.E. Goosey**
**Dyddiad: 13.6.19**

This page is intentionally left blank

**Enw'r Ysgol:** Ysgol Pentraeth

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**

***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

**Nodiadau:**

**CS**

Mae'r y rhan fwyaf o disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o wyliau crefyddol Cristnogion yn y CS sef Diolchgarwch, Y Nadolig a'r Pasg. Maen't yn gallu trafod y Beibl ,Y Llyfr Sanctaidd, ac yn gallu adrodd straeon o'r Beibl. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu trafod y gwyliau yma mewn peth manylder. Gall y rhan fwyaf gyfrannu yn dda i drafodaethau ar cwestiynau moesol a chwestiynau sylfaenol a chrefyddol. e.e. Beth sy'n gwneud ffrind da ,Pam bod hi'n bwysig dweud y gwir a.y.b.. Mae'r rhan fwyaf plant yn ymateb yn dda gyda nifer fechan yn ymateb yn dda iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o fannau addoli megis Y Capel a'r Eglwys yn ogystal ag arteffactau crefyddol Cristnogaeth a Hindwiaeth.

**CA2**

Mae'r rhan fwyaf disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o fannau addoli, arteffactau a symbolau crefyddol Cristnogion, Iddewon ac Hindwiaid. Maen't yn cyfrannu yn dda i gwestiynau mawr megis:
Byd pwy ydy hwn?/Beth sy'n ein gwneud yn ddynol?/A oes Heddwch? / A oes rhaid Marw? a Beth sy'n Real?
Mae'r mwyafrif yn hyderus wrth drafod materion crefyddol, moesol a diwylliannol ac mae nifer fychan yn hyderus iawn ac yn ymateb yn dda iawn. Gal tua hanner drafod effaith crefyddol ar ffordd o fyw credinwyr ac gall ychydig egluro cyswllt rhwng y gred a'r dysgeidiaeth

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: DA**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**

***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cygnor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

**Nodiadau:**

O sgwrsio gyda plant yn ystod teithiau dysgu ac wrth edrych ar waith plant mewn llyfrau mawr mae'n amlwg bod rhan fwyaf o ddisgyblion blwyddyn 4,5 a 6 yn datblygu'r gallu i ofyn cwestiynau mawr e.e. *'Pwy wnaeth Duw?', 'Pam bod dŵr yn las?' 'Sut mae Duw wedi creu y Byd mewn saith diwrnod?' 'Dynas 'ta dyn ydi Duw?' 'Pam bod nos a dydd yn bod?'.Mae y mwyfrif yn dangos y gallu hyn yn y CS.*
Mae y rhan fwyaf o disgyblion CA2 yn dangos goddefgarwch tuag at unigolion llai ffodus neu grwpiau o bobl sydd â barn gwahanol ac o dras a chrefydd gwahanol.
Maent yn deall bod ganddynt gyfrifoldebau tuag at eu hunain, pobl eraill a'r byd rydym yn byw ynddi. Enghraifft da o hyn yw eu bod codi arian tuag at un elusen o'u deiws yn flynyddol ac o ganlyniad i wersi AG ar beth sy'n gwneud ni'n ddynol a Planed arbennig Harri9 sy'n rhan o gynllun yr ysgol) maent yn myfyrio ar sut mae ymddygiad a gweithredodd yn effeithio unigolion, grwpiau a chymdeithas yn gyffredinol.
Mae'r disgyblion yn gallu trafod nodweddion 'Ffrwythau'r Ysbryd megis 'cariad' 'ffyddlondeb' 'heddwch' 'addfwynder' 'llawenydd' 'daioni' 'goddefgarwch' 'hunan ddisgyblaeth' a 'caredigrwydd'.
Maent yn cael cyfle i weld beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol ac mae tua hanner y disgyblion yn gallu cymharu nodweddion tebyg/ gwahanol crefyddau yn fedrus .e.e. agweddau Cristnogion a Hindwiaid tuag at y cread ar hyn sy'n gwneud ni'n ddynol.

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DA**

| |
|---|
| **Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**<br>***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog.*** |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018) |
| **Nodiadau:**<br>Mae gan y cydlynydd newydd ddealltwriaeth dda o'r maes ac mae'r cynllunio yn cydymffurfio ar sail Pobol, Credoau a chwestiynau ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn. Mae'r ysgol yn defnyddio'r llyfrau o'r gyfres 'Tybed Pam?' sef 'Stori Ruben', 'Holi Hai', 'Gwneud y Pethau Bychain', 'Planed Arbennig Harri', 'Fi, dy frawd yw e!' a 'Y Seremoni Enwi'. Mae sesiynau amser cylch yn digwydd yn ddyddiol yn y dosbarth meithrin a derbyn ac yn wythnosol ym mlwyddyn 1 a 2<br>Yn y CS mae'r disgyblion datblygu eu gwybodaeth sylfaenol o beth ydi Crefydd a Christnogaeth. Maent yn datblygu eu gwybodaeth o brif wyliau a dathliadau Cristnogion ac Iddewon. Gwneir defnydd o'r cyfres 'Tybed Pam?'.<br>Yn CA2 mae'r disgyblion yn parahau i ddatblygu eu gwybodaeth o Gristnogaeth ,Iddewiaeth a Hindwiaeth wrth iddynt gymharu rhai o'u arferion a credoau. Wrth ailgynllunio yn thematig maer ysgol bellach yn dewis rhai themâu sy'n cael eu arwain gan un o gwestiynau mawr e.e. A oes Heddwch . Gwneir defnydd da o gwestiynau mawr er mwyn addysgu'r pwnc yn llwyddiannus.<br>Mae ABACH , Addysg Grefyddol A Dinasyddiaeth Byd Eang wedi eu plethu yn dynn **yn dda** drwy'r ysgol (mae 'r ysgol wedi llwyddo i ennill achrediad Cam 2 Ysgolion Rhyngwladol). Rhoddir sylw haeddiannol i ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn ogystal a datblygiad ysbrydol a moesol drwy addysgu y tri maes .<br>Gwneir defnydd da o amser cylch a Ffrindiau'n Gyntaf i ddatblygu disgyblion gyda'r ysgol bellach yn gobeithio ennill Cam 6 ysgolion iach.<br>Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn dda drwy'r meysydd uchod.<br>Mae yna gysylltiadau agos rhwng yr Eglwys leol â'r ysgol ac mae'r Parchedig Gruff Jones yn ymweld ac yn cynnal sesiwn addoli ar y cyd |
| **Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DA** |

| |
|---|
| **Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**<br>***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?*** |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.<br>• I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017) |
| **Nodiadau:**<br>Mae sesiynau addoli ar y cyd yn dda yn digwydd 5 gwaith yr wythnos. Dwywaith fel ysgol gyfan, dwywaith fel adran ac unwaith fel dosbarth unigol. (Gweler Amserlen) Gwneir defnydd helaeth o'r we wrth baratoi gwasanaethau ysbrydol Mae sesiynau addoli ar y cyd yn Gristnogol pur ac yn gynhwysol i ddisgyblion sy'n arddel credoau eraill. Defnyddir amrywiaeth o sbardunau cychwynnol i'r sesiynau yma. Mae bron iawn pob un yn deall pwysigrwydd addoli ar y cyd ac yn trin y neuadd fel tŷ Duw yn ystod gwasanaethau. Goleuir cannwyll i ddynodi cychwyn a diwedd y gwasanaeth ac mae symbolau Cristnogol yn cael eu harddangos yn amlwg yn ystod gwasanaethau. Mae'r gwasanaethau yn adlewyrchu ethos Cristnogol yr ysgol.<br>Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol yn dda iawn , rydym yn hyrwyddo gwerthoedd megis goddefgarwch, gonestrwydd a thegwch yn dda iawn ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i fyfyrio ar fywydau eu hunain ac eraill yn rheolaidd. Drwy'r Cyngor Ysgol a thrwy rhoi sylw i llais y plentyn mae disgyblion yn gwybod bod cyfrifoldeb yn dod law yn llaw â hawliau.<br>O sgwrsio gyda disgyblion yn ystod teithiau dysgu mae'n amlwg fod y disgyblion yn cael cyfleoedd i ofyn cwestiynau penagored ac i ymchwilio enghraifft dda o hyn oedd ymatebion a chwestiynau blwyddyn 5 a 6 wrth drafod pwy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| fyddai'n hoffi cyfarfod Duw. Sut mae Duw yn edrych? A'i dynes yntau dyn ydy Duw? | | | | |
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | √ | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: DA** | | | | |

| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| **Nodiadau:**<br>Mae'r cydlynydd yn gwneud ei gwaith yn drylwyr. Mae cynllun gwaith diwygiedig yn ei le, mae cynllun addoli ar y cyd (yn defnyddio safwe Beibl.net) yn cael ei ddilyn yn rheolaidd. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn Gristnogol pur. Defnyddir adnodau o'r Beibl fel sbardun cychwynnol i'r sesiynau Mae'r cydlynydd ynghyd a'r pennaeth wedi cychwyn monitro y sesiynau addoli ar y cyd yn dymhorol mae hyn wedi arwain at fwy o gysondeb ar yr ysgol. Selir y cynllun gwaith cyfredol ar y gyfres 'Tybed Pam?' gan Peniarth fel y nodwyd yn MA1. Mae Addysg Grefyddol yn cael ei fonitro yn flynyddol a chedwir cofnod o waith disgyblion er mwyn ei fonitro mewn llyfrau mawr yn y CS a CA2 Mae hyn yn sicrhau safonau a'r ddarpariaeth yn gwella oherwydd atebolrwydd cadarn.<br><br>Buddsoddwyd mewn llyfrau ac adnoddau<br><br>Mae'r llywodraethwraig dynodedig yn ymweld â'r ysgol unwaith y flwyddyn i fonitro (Mrs A.W.) mae hyn yn arwian at wella atebolrwydd sydd yn ei dro yn sicrhau bod safonau yn y maes yn gwella.<br>Mae cofnodion cyfarfodydd staff yn dangos bod sylw haeddianol yn cael ei roi i Addysg Grefyddol( unwaith y tymor) a bod camau pendant wedi eu cymryd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf i wella ansawdd yr addysgu (Gweler adroddiad craffu ar lyfrau a taith ddysgu).<br>Mae arfarniad cynnydd yn cael ei gwblhau yn flynyddol er mwyn adnabod meysydd gwella ac mae'r ysgol yn gweithredu arnynt. Mae hyn yn arwain at welliant amlwg yn y ddarpariaeth o flwyddyn i flwyddyn.<br>Nid yw'r ysgol ar hyn o bryd yn cydweithio gyda ysgol arall yn y maes yma ond mae'r cydlynydd wedi adnabod ei fod angen sylw pellach.<br>Nid oes hyfforddiant wedi ei gynnig yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ond mae'r cydlynydd wedi creu cysylltiad gyda cydlynydd profiadol mewn ysgol arall.<br>Ni dderbyniwyd ymweliad gan CYSAG er fod yr ysgol wedi rhoi ei henw i lawr i'r Sir y llynedd. |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: DA** |

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|---|---|
| | | Rydyn yn ymwybodol nad oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae'n dewid gennym wneud hynny er bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr. | |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol – Datblygu sgiliau'r cydlynydd a'r llywodraethwyr dynodedig ymhellach. Creu partneriaeth gyda ysgol arall. | Trefnu hyfforddiant pellach i'r cydlynydd<br><br>Trefnu i'r llywodraethwraig dynodedig ddod i mewn i arsylwi gwasanaethau boreuol.<br><br>Hyfforddiant byr i'r llywodraethwraig dynodedig ar y drefn HA newydd.<br><br>Gweithio ysgol-i-ysgol gyda ysgol Eglwys (Ysgol Llandygai). | ME<br><br>LJ | Tachwedd 2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu agwedd trawsgwricwlaidd AG yn CA2. | Mapio darnau ysgrifennu estynedig sy'n berthnasol i agweddau AG. | LJ | |
| Perthnasu gwaith AG i un o'r chwe maes sy'n rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.<br><br>Mae AG yn cael ei enwi gyda'r Dyniaethau – gweler y drafft cyntaf o'r datganiadau 'yr hyn sy'n bwysig'. | Perthnasu'r gwaith i'r maes 'Iechyd a Lles - yn unigolion iach, hyderus sydd:<br><br>› â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol'. | LJ<br><br>ME | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Mae'r ysgol yn llwyddo i ymateb yn llawn i ofynion y Maes LlAFUR Cytub  c mae sylw haeddianol yn cael ei roi i'r 5 maes arolygu sydd yn sicrhau bod anghenion ysbrydol a moesegol y disgyblion yn cael eu diwallu er mwyn creu disgyblion sydd â pharch tuag at unigolion, grwpiau ac ymgyrchoedd.

**Enw'r pennaeth : Lynne Jones**
**Llofnod y pennaeth :**
**Dyddiad : 24/5/19**

**Enw'r Ysgol: Ysgol Gynradd Amlwch**

## Addysg Grefyddol

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

Nodiadau: Wrth graffu ar lyfrau, mae'r gwaith a welwyd ar y lefel bridodol i oedran a gallu y disgyblion yn yr rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Erbyn brig yr ysgol mae llawer o ddisgyblion yn ymdrin a chwestiynau sylfaenol ac yn gallu archwilio i wahanol gredoau ac arferion. Yn y Cyfnod Sylfaen mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth drafod agweddau o'r gwaith ac mae datblygiad amlwg ar draws y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gallu ymateb i gwestiynau mawr ac wedi llwyddo wrth ddeall agweddau ar grefyddau eraill a Christnogaeth e.e. Bl 2 wrth wneud gwaith ar Divali a Bl 6 wrth wneud gwaith ar Bererindod. Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd angen sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol ac o ddosbarth i ddosbarth gan sicrhau lle amlwg i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn Addysg Grefyddol.

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: DDA**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cyngor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

Nodiadau: Drwy arsylwadau gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb naturiol mewn Addysg Grefyddol.Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarthiadau, yn y coridorau ac yn y gwasanaethau. Maent yn cydweithio'n dda gan wrando a pharchu cyfraniadau a syniadau eraill e.e. wrth i ddisgyblion Bl 2 gydweithio mewn grwpiau bach ar dasgau Nadolig.

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DDA**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

Nodiadau:
Darperir profiadau Addysg Grefyddol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannusac mae gwersi wythnosol wedi eu amserlenu.Mae llawer o'r athrawon yn holi'n fedrus er mwyn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion o'u tasgau a'u hannog i fyfyrio a meddwl yn annibynnol.Mae profiadau Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen ymhob dosbarth yn ymarferol, ysgogol a chyfoethog. Mae'r gweithgareddau mewn llawer o ddosbarthiadau CA2 yn ddiddorol a lefel yr her yn addas. Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi ail gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer CA2 i sicrhau fod cyfleoedd i drafod cwestiynau mawr. Mae'r ysgol yn defnyddio dull adborth newydd (pinc plesio/gwyrdd gwella) wrth ymateb i waith disgyblion ac mae hyn yn golygu fod yr rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwybod beth maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen gwella. Mae ychydig o'r gweithgareddau yn rai sy'n dilyn argymhellion Cwricwlwm i Gymru – agwedd sydd wrthi'n datblygu yn yr ysgol ar hyn o bryd. Caiff lawer o ddosbarthiadau brofiadau tu allan i'r ystafell ddosbarth sy'n ymwneud efo agweddau o Addysg Grefyddol e.e. creu

| |
|---|
| patrymau Rangoli a sialc.Mae llawer o ddosbarthiadau yn rhoi ychydig o gyfleoedd i ddatblygu Addysg Grefyddol yn drawsgwricwlaidd – hyn eto i'w ddatblygu. Yn y Cyfnod Sylfaen mae arsylwadau dosbarth yn dangos fod defnydd o agweddau o Addysg Grefyddol yn cael ei wneud yn effeithiol o fewn ardaloedd dysgu annibynnol ym mhob dosbarth. Dros y flwyddyn nesaf bydd angen sicrhau ystod ehangach o brofiadau trawsgwricwlaidd rheolaidd ar draws yr ysgol. Bydd angen sicrhau fod pob dosbarth yn cadw at yr amserlen o ran gwersi wythnosol ar gyfer Addysg Grefyddol. |
| **Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DIGONOL** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**<br>***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?*** | | | | |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.<br>• I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017) | | | | |
| Nodiadau:<br>Mae'r Cyngor Ysgol, Pwyllgor Eco a'r Pwyllgor Masnach Deg yn gweithredu yn effeithiol ar draws gwahanol feysydd yn llwyddiannus i greu dinasyddion gweithredol. Mae'r disgyblion mewn llawer o ddosbarthiadau yn cael gwneud dewisiadau yn eu dysgu sy'n cael effaith ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu. Mae'r elfen gymunedol yn gryfder yn yr ysgol a'r ficer lleol yn ymweld yn gyson. Mae llawer o'r disgyblion hefyd yn elwa o fod yn helpu y tu allan i'r ysgol e.e. gwasanaeth Nadolig yr Eglwys, Sul y Cofio, elusenau amrwyiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol yn gryfder yn yr ysgol. . Cynhelir gwasanaethau dyddiol ac mae rhain wedi eu cynllunio'n addas i sicrhau cysondeb ac amrediad o gyfleoedd i addoli ar y cyd. Caiff datblygiad moesol y disgyblion ei hyrwyddo'n dda trwy amser myfyrio mewn gwasanaethau ac mae'r cydweithio a'r eglwys leol hefyd yn cyfrannu'n dda at hyn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol, yn arbennig mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae'r ysgol yn creu awyrgylch hapus, gofalgar a chynhwysol sy'n rhoi pwyslais clir ar ddatblygu medrau anghenion emosiynol a chymdeithasol yn ogystal a medrau cwricwlaidd. Mae pob aelod o staff wedi eu hyfforddi mewn adnabod arwyddion o radicaleiddio ac yn hyderus yn y maes. | | | | |
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | **X** | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: DDA** | | | | |

| |
|---|
| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| Nodiadau:<br>Mae'r arweinydd pwnc wedi ei phenodi yn ddiweddar ac yn datblygu yn ei rol o arwain o fewn y maes. Prin yw'r cyfloedd erbyn hyn i elwa o hyfforddiant o fewn Addysg Grefyddol. Er hynny bydd yr ysgol yn sicrhau cynrychiolaeth pan fydd cyrsiau, cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Er fod rhieni yn cael eu hysbysu yn y Llawlyfr Ysgol y gallant dynnu eu plentyn o wersi Addysg Grefyddol nid oes unrhyw riant wedi gwneud.<br>Dros y flwyddyn nesaf bydd angen datblygu rol y cydlynnydd Addysg Grefyddol |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: DDIGONOL** |

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| Datblygu rol y Cydlynnydd | Pennaeth/Gwe i roi arweiniad i'r Cydlynnydd ar graffu ar lyfrau | | |
| Cysondeb o ran profiadau ar draws yr ysgol | Craffu ar gynlluniau/bwriadau wythnosol a llyfrau disgyblion i sicrhau ystod o brofiadau a her addas | | |
| Sicrhau gwersi bob wythnos | Monitro bwriadau wythnsol a llyfrau'r disgyblion | | |
| | | | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Mae'r ysgol yn gymuned glos, trefnus a gofalgar. Mae'r holl staff yn rhoi arweiniad gadarn sy'n hyrwyddo lles y disgyblion. Mae arweiniad pendant y Polisi Ymddygiad a'r Polisi Bwlio yn golygu fod cysondeb ar draws yr ysgol. Mae cyfle cyfartal a ffordd iach o fyw yn ran greiddiol o ethos yr ysgol – hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr holiaduron lles Chwefror 2018.Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod yr hyn sy'n eu poeni ac mae sesiynau ABCh ac amser cylch yn cael eu darparu yn rheolaidd sy'n rhoi sylw i onestrwyd, gwneud dewisiadau, empathi tuag at eraill. Mae 'r 5 G (sef Gwrando, Gorau, Gonestrwydd, Gofalu a Gwenu) yn greiddiol i ethos yr ysgol.Ma'r gwasanaethau dyddiol a'r cydweithio agos a'r Eglwys Leol yn golygu fod datblygiad ysbrydol a moesol yn gryfder yn yr ysgol.

**Enw'r pennaeth MRS BETHAN WYN JONES**

**Llofnod y pennaeth** *Bethan Wyn Jones*

**Dyddiad: 05/06/19**

This page is intentionally left blank

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cyfarfod CYSAGau Cymru, yn***
***Neuadd y Sir Caerdydd***
***Dydd Mawrth, 26 Mawrth 2019***
**10.30a.m. – 3.00p.m.**

**Yn bresennol**

**Ynys Môn**
Rheinallt Thomas

**Blaenau Gwent**
Paula Webber (PW)
Kathy Riddick (KD)

**Pen-y-bont ar Ogwr**
Edward J. Evans (EE)
Maggie Turford (MT)
Alice Parry (AP)

**Caerffili**
Paula Webber (PW)
Janet Jones (JJ)

**Caerdydd**
Maggie Turford (MT)
Gill James (GJ)
Norma Mackai

**Sir Gaerfyrddin**
Helen Gibbon (HG)

**Ceredigion**

**Conwy**

**Sir Ddinbych**
Ellie Chard (EC)

**Sir y Fflint**

**Gwynedd**

**Merthyr Tudful**
Maggie Turford (MT)
Ernie Goldsworthy (EG)

**Sir Fynwy**
Paula Webber (PW)

**Castell-nedd Port Talbot**
Hugh James (HJ)
Rachel Samuel (RS)
Peter Rees (PR)

**Casnewydd**
Paula Webber (PW)
Huw Stephens (HS)

**Sir Benfro**

**Powys**
John Mitson (JM)
Sian Fielding (SF)

**Rhondda Cynon Taf**
Maggie Turford (MT)
Mathew Maidment (MM)

**Abertawe**
Jennifer Harding -Richard (JHT)
Alison Lewis (AL)

**Torfaen**
Paula Webber (PW)

**Bro Morgannwg**
Maggie Turford (MT)
Ramez Delpak (RD)

**Wrecsam**
Libby Jones (LJ)
Tania ap Sion (TaS)

**Sylwedyddion**
Rudolf Elliot Lockhart, REC
Paul Morgan, MAGC
Andrew Pearce, CBAC

**Cyflwynwyr**
Nicky Hagendyk, EAS

**Cofnodion**
Gill Vaisey (GV)

**Cofnodion y cyfarfod**

**1. Cyflwyniad a chroeso**

Cyn y cyfarfod, mwynhaodd yr aelodau sioe sleidiau gan Ysgol Gynradd Moorland, Caerdydd, oedd yn dangos lluniau o agweddau o'u harfer da.

Croesawyd pawb i Neuadd y Sir, Caerdydd ac i'r Awdurdod Lleol gan y Cynghorydd Dianne Rees, Arglwydd Faer Caerdydd. Soniodd am bopeth sydd gan Gaerdydd i'w ddathlu ac am ei rhan hi fel cyn aelod o GYSAG Caerdydd.

Estynnwyd croeso i Gaerdydd hefyd gan Gadeirydd CYSAG Caerdydd, y Cynghorydd Sarah Merry. Siaradodd am ei phrofiad o fod yn aelod o CYSAG fel Cynghorydd Sir a sut nad oedd hi'n sicr i ddechrau beth roedd CYSAG yn ei olygu. Ond mae ei phrofiad wedi dangos iddi bwysigrwydd addysg grefyddol a chred y dylai CYSAGau fod yn ystyrlon yn cefnogi plant o nifer o wahanol grefyddau, a rhai di-grefydd, o fewn y gymuned.

**2. Adfyfyrio tawel**

Rhannodd EE ei feddyliau am y sefyllfa echrydus yn Seland Newydd – ffydd neu ddim ffydd – roedd hyn yn dangos annynoldeb gweithredoedd rhywun tuag at grŵp o bobl eraill.

Cyfeiriodd at y gyfrol *50 Five-Minute Tales* – straeon y mae wedi'u defnyddio i Addoli ar y Cyd mewn ysgolion.

Y Corrach a'r Dylwythen Deg - corrach swil oedd â chlustiau mawr yr oedd y dylwythen deg yn chwerthin am ei ben. Fodd bynnag, dangosodd y corrach garedigrwydd mawr ati. Diben y stori oedd dangos na ddylai pobl gael eu barnu oherwydd eu hymddangosiad allanol, neu ddim ond am eu bod yn wahanol, e.e. lliw, ymddangosiad, credoau, gwleidyddiaeth ayb, ond cydnabod ei gilydd fel bodau dynol.

Gwahoddodd EE yr aelodau i fyfyrio ar greu gwell byd i fyw ynddo.

**3. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Meirig Roberts (Llywodraeth Cymru), Cyng Lacey (CYSAG Casnewydd), Cyng Lyndon Lloyd (Ceredigion), Vicky Barlow (Sir y Fflint), Michelle Gosney (Estyn) a Tudor Thomas (sydd wedi ymddiswyddo fel cadeirydd MAGC ond sy'n dal i fod yn aelod o GYSAG Sir Fynwy).

**4. Cyflwyniad PYCAG: Nicky Hagendyk – Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau**

Nicky Hagendyk yw Cadeirydd Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Siaradodd am y diwygiadau ehangach ochr yn ochr â diwygio'r cwricwlwm. Pwysleisiodd fod profiad yn agwedd bwysig o'r cwricwlwm newydd hwn. Mae'n broses sy'n cael ei chefnogi gan y Pedwar Diben y dylid eu cyrraedd erbyn diwedd addysg ysgol.

Tynnodd sylw at y pynciau newydd ar y cwricwlwm o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau – astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Ymarferwyr sydd wrthi'n ysgrifennu'r cwricwlwm newydd ac maent wedi mabwysiadu dull holistig gyda'r 'datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' wrth graidd y cyfan.

Maent yn ceisio cael cydbwysedd rhwng dull holistig rhyngddisgyblaethol a chadw integriti pob pwnc arbenigol.

Mae'r cwricwlwm newydd yn debygol o fod yn llai cyfarwyddol ac yn cynnig mwy o ymreolaeth i ysgolion. Y tu ôl i'r Pedwar Diben bydd cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau.

Caiff ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2019 i gael adborth gan athrawon a rhanddeiliaid eraill. Bydd cynnwys 'Beth sy'n Bwysig' yn rhan o'r ymgynghoriad. Eglurodd Nicky bob un o'r pum datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau.

1. Mae datblygu meddwl chwilfrydig yn galluogi'r dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, yn y gorffennol, presennol a'r dyfodol, drostynt eu hunain.
2. Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth ac yn cael eu gweld, eu dehongli a'u cynrychioli mewn ffyrdd gwahanol.
3. Mae'r byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac mae prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol yn dylanwadu arno.
4. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol ac mae ymddygiad a chredoau dynol wedi eu siapio.
5. Dinasyddion gwybodus a hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth ac yn gallu cymryd camau moesegol a chynaliadwy.

Ni ddylid ystyried pob datganiad ar ei ben ei hun – gallai uned waith fod yn gysylltiedig â dau neu dri o'r datganiadau.

Gall pob un o'r pynciau yn y dyniaethau gael eu harchwilio drwy unrhyw un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Yn ganolog i'r cwricwlwm mae dilyniant o safbwynt gwybodaeth, dealltwriaeth gysyniadol, y gallu i weithio gyda ffynonellau, ayb.

Cafwyd mewnbwn gan arbenigwyr ac ymgynghorwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Bydd y cwricwlwm yn cael ei gyhoeddi ar 30 Ebrill ar gyfer ymgynghoriad ac adborth. Amserlen yr ymgynghoriad fydd o Ebrill 30 tan ddechrau Medi.

Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd, dywedodd Nicky fod athrawon o bob rhan o Gymru wedi cymryd rhan mewn ysgrifennu'r cwricwlwm ehangach ac y byddant hefyd yn cymryd rhan mewn ysgrifennu'r Fframwaith AG.

Ystyriwyd cwricwlwm Lloegr hefyd yn ogystal â meysydd llafur o wledydd eraill.

Holodd yr aelodau am y gost o gyflwyno'r newidiadau hyn mewn ysgolion. Awgrymodd un aelod fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi cyllid yn ei le er mwyn cefnogi gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llawn.

Bydd y cwricwlwm terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020 ac felly bydd hyfforddiant yn dilyn wedi i'r cwricwlwm gael ei gytuno arno a'i ffurfio'n derfynol.

Mae angen ystyried sut bydd CCYSAGauC yn rheoli ei adborth ar yr ymgynghoriad. A ddylai'r Pwyllgor Gwaith ymateb ar ran CCYSAGauC neu a ddylid sefydlu gweithgor o aelodau CCYAGauC?

**Gweithredu:** Y Pwyllgor Gwaith i lunio ymateb i'r drafft ar ran CCYSAGauC

## 5. Arolwg Tynnu yn ôl o Addysg Grefyddol

Cyfeiriodd PW at ganlyniadau'r holiadur am dynnu disgyblion yn ôl o AG ac edrychodd ar y canfyddiadau.

Gallai'r wybodaeth hon fod yn sail i drafodaethau ac i ymateb CCYSAGauC i gwestiwn Papur Gwyn LlC ynghylch a ddylid cael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl.

Adroddodd GV ei bod hi'n pryderu am rai o ganfyddiadau'r arolwg.
I ddechrau, mae'n awgrymu fod rhai ysgolion yn dal ddim yn gwneud y gwahaniaeth rhwng Addoli ar y Cyd ac AG. Roedd yr arolwg wedi cyfeirio'n benodol at AG ar y cwricwlwm yn unig ac eto roedd rhai ymatebion yn cyfeirio at Addoli ar y Cyd.
Yn ogystal, roedd tystiolaeth o ddiffyg dealltwriaeth am wir natur Addysg Grefyddol ar y cwricwlwm - mewn rhai achosion roedd yr ymatebion yn cyfeirio at dynnu disgyblion yn ôl o weddïo a chanu emynau a hefyd ymweld ag eglwys i gymryd rhan mewn dathliadau - ond ni ddylai'r un o'r rhain fod yn digwydd mewn AG seiliedig ar y cwricwlwm.
Roedd GV yn pryderu hefyd am nifer y rhieni (12) oedd yn tynnu eu plant yn ôl yn rhannol rhag dysgu am Islam. Mae hyn yn awgrymu rhagfarn yn erbyn y grefydd arbennig honno.
Awgrymodd HS ei bod yn hanfodol, pan mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei lunio, ei fod yn hybu AG wrthrychol, feirniadol a lluoseddol er mwyn sicrhau nad yw rhieni'n teimlo'r angen i dynnu eu plant yn ôl.

Rhannodd RL ei syniadau am y posibilrwydd o her gyfreithiol – os yw rhywun o ffydd arbennig wedi bod â rhan mewn datblygu'r cwricwlwm, yna gellid ystyried na allai'r cwricwlwm hwnnw fod yn wrthrychol. Yn yr un modd, os oes gan athro gefndir ffydd, gellid awgrymu nad ydynt yn gallu bod yn wrthrychol yn eu haddysgu.

**Gweithredu:** awgrymu i'r CYSAGau eu bod yn edrych ar eu canfyddiadau lleol o'r arolwg ac yn cymryd unrhyw gamau priodol.
(Dywedodd GV fod rhai CYSAGau wedi coladu eu canlyniadau eu hunain tra bod eraill wedi anfon ymatebion gan ysgolion unigol ac felly roedd hi wedi coladu'r rhain a bydd y manylion yn cael eu hanfon i'r CYSAGau hynny).

## 6. Ystyried ac ymateb i bapur gwyn y Llywodraeth

Aeth EE trwy'r papur a'r cynigion.

Cyflwynwyd ymateb Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC ac fe'i rhannwyd â'r aelodau. Nodwyd nad oeddent wedi dod i gasgliad am gael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl o AG.

Cyflwynwyd ymateb PYCAG ac fe'i rhannwyd â'r aelodau. Nododd LJ fod ymateb PYCAG yn wahanol mewn rhai agweddau i ymateb CCYSAGauC. Byddai PYCAG yn dymuno cael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl ond mae'n ategu'r angen felly am roi hyfforddiant yn ei le i sicrhau fod pob athro ac ysgol yn gwneud yn siŵr fod eu haddysgu a'u darpariaeth yn wrthrychol.

Mae PYCAG yn awgrymu hefyd y dylid cadw AG yn y chweched dosbarth ac y dylai colegau orfod darparu AG hefyd.

Cred HS fod disgyblion 16 – 19 oed angen cael addysg grefyddol yng ngoleuni materion ac agweddau'r byd sydd ohoni.

Awgrymodd KR, os yw athrawon yn dysgu AG cwbl addysgol a gwrthrychol, yna nad oes angen yr hawl i dynnu'n ôl, fodd bynnag, os yw AG yn enwadol ac yn seiliedig ar ffydd, yna mae'r angen i dynnu'n ôl yno.

Awgrymodd PW fod angen i ni sicrhau fod y ddarpariaeth fel y dylai fod ac yna nid oes reswm dros gael hawl i dynnu'n ôl.

Nododd GV fod angen gwahaniaethu rhwng AG y Maes Llafur Cytûn ac AG seiliedig ar ffydd ac roedd hi'n ategu'r pwynt a wnaed gan KR.

Awgrymwyd y dylem gymryd y safbwynt ein bod yn cymryd ac yn disgwyl fod AG yn cael ei dysgu'n briodol ac yn atgyfnerthu'r disgwyliad hwn.

Roedd ymateb RT yn nes at farn PYCAG nag un CCYSAGauC. Cred ef fod yn rhaid i ni sicrhau fod AG yn addas i bawb ac mae angen i ni gael hyder yn ein hathrawon y byddant yn dysgu'r pwnc mewn modd proffesiynol. Roedd ef hefyd yn credu bod angen i fyfyrwyr chweched dosbarth gael AG.

Ailadroddodd HS yr angen i herio Awdurdodau Lleol ar ddiffyg gwasanaethau cynghori proffesiynol i gefnogi AG.

Dywedodd RL mae'r hyn oedd yn ei boeni ef oedd y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid yw'n meddwl fod achos wedi bod lle cafwyd nad yw'r AG yn wrthrychol a lluoseddol ac felly os ceir gwared â'r hawl i dynnu'n ôl, gallai hyn arwain at gyfres o achosion yn mynd i'r llys.

Fel 'pôl gwelltyn' (nid pleidlais swyddogol ar ran CYSAGau), roedd pawb yn yr ystafell yn unfrydol o blaid cael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl o AG.

Cafwyd cefnogaeth unfrydol hefyd dros wneud AG yn statudol i blant meithrin o 3 oed.

Ymateb cymysg a gafwyd i dynnu AG o'r chweched dosbarth.

Diolchodd CCYSAGauC i aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC ac i aelodau PYCAG am gyflwyno'u hymatebion.

**Gweithredu**: PW i anfon ymateb ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn cadarnhau'r ymateb a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ac yn ychwanegu sylwadau pellach ar farn y rheiny oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

## 7. Diweddariad ar Fframwaith Cefnogi AG

Adroddodd LJ fod LlC wedi rhoi cyllid llawn i grŵp i gynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn datblygu Fframwaith Cefnogi i eistedd ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd. Mae'r grŵp yn cynnwys athrawon AG, athrawon o Ysgolion Arloesi, aelodau PYCAG, CCYSAGauC, REC, CBAC, ac Estyn. Maent yn cynrychioli pob ardal yng Nghymru a phob ystod oed ynghyd â chyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Gan nad ydym yn gwybod eto a fydd yr hawl i dynnu'n ôl o AG yn cael ei dynnu, mae angen i'r Fframwaith gael ei ysgrifennu fel bod AG yn cael ei nodi'n amlwg.

Gobeithir y bydd drafft yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Ionawr 2020. Mae angen iddo fod yn barod erbyn Gorffennaf er mwyn iddo gael ei gyfieithu a mynd i ymgynghoriad cychwynnol.

Adroddodd PW ar y meddylfryd y tu ôl i gynhyrchu'r Fframwaith AG a sut y gallai edrych fel ychwanegiad i'r datganiadau Beth sy'n Bwysig ar y cwricwlwm. Yna mae'n bosibl y gallai'r Fframwaith hwn gael ei fabwysiadu gan bob Awdurdod Lleol fel eu Maes Llafur Cytûn.

Awgrymodd RT y dylai'r Fframwaith AG gael ei ysgrifennu mewn modd sy'n hygyrch i'r rhai heb fod yn addysgwyr ac y dylai gael ei dderbyn a'i fabwysiadu gan Gynadleddau Maes Llafur Cytûn.

## 8. Cymorth AG Proffesiynol i GYSAGau

Adroddodd EE fod ymateb wedi'i dderbyn bellach gan Kirsty Williams i'r llythyr a anfonodd CCYSAGauC ati ynglŷn â Chymorth AG Proffesiynol ac adolygu Cylchlythyr 10/94.

Adroddodd LJ am y sefyllfa argyfyngus o ran diffyg cefnogaeth AG arbenigol i GYSAGau gan fod pum arbenigwr wedi'u tynnu o'u swyddi mewn cyfnod byr o amser. Nodwyd mai dim ond LJ a PW sydd ar ôl fel cynghorwyr arbenigol mewn AG.

Atgoffodd LJ yr aelodau fod PYCAG a CCYSAGauC wedi ysgrifennu at y Cyfarwyddwyr Addysg i ofyn am wybodaeth ar bwy sy'n darparu eu cymorth proffesiynol i GYSAGau.

Roedd yr atebion yn amrywiol fel yn ôl cofnodion y cyfarfod diwethaf. Roedd LJ a PW wedi cyfarfod â'r 22 Cyfarwyddwr Addysg ac wedi'u hatgoffa am eu dyletswyddau cyfreithiol o safbwynt AG a ChYSAGAu ac wedi tynnu eu sylw at y cymorth arbenigol amrywiol ar draws Cymru. Gwnaed y pwynt fod anghysondeb cymorth arbenigol yn annheg gan ei fod yn effeithio ar y disgyblion sydd ar ddiwedd y broses. Tynnwyd sylw at yr angen am gymorth dysgu proffesiynol ac mae hyn yn golygu fod angen cymorth AG arbenigol i ALlau a ChYSAGau.

Fe gyflwynon nhw hefyd swyddogaethau a chyfrifoldebau / enghraifft o swydd ddisgrifiad cynghorydd CYSAG er mwyn sicrhau fod y Cyfarwyddwyr yn sylweddoli hyd a lled y rôl gan dynnu sylw at y ffaith na all athro llawn amser, er enghraifft, fyth ysgwyddo'r gwaith ychwanegol hwn.

Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwyr holi a chanfod pwy sy'n rhoi cefnogaeth – ai'r Awdurdod Lleol neu'r Consortiwm. Mae angen iddynt ystyried cael cynghorwyr AG arbenigol i gefnogi eu CYSAGau. Roedd y 22 Gyfarwyddwr yn barod iawn i gymryd rhan yn y sgwrs gyda LJ a PW a / neu fynd â'r neges yn ôl i'w consortia.

Nododd RT fod yna arbenigwyr AG ar gael ond nad ydynt yn cael eu defnyddio gan eu Hawdurdodau Lleol i gefnogi AG a ChYSAGau e.e. Bethan James a Phil Lord yn GwE a Cary Thomas yn CSC ynghyd â Gill Vaisey sydd yn ymgynghorydd arbenigol.

**Gweithredu:** LJ a PW i barhau i siarad â'r Cyfarwyddwyr ac adrodd yn ôl i CCYSAGauC.

## 9. Dysgu Proffesiynol i AG

Bu PW a LJ mewn cyfarfod gyda Kevin Palmer i drafod y cymorth dysgu proffesiynol sydd ei angen yng ngoleuni AG a'r cwricwlwm newydd. Maent wedi cael eu gwahodd i gynhyrchu dogfen fydd yn amlinellu'r meysydd hyfforddiant fydd eu hangen i gefnogi gweithredu'r cwricwlwm newydd. Bydd PYCAG yn ystyried hwn ac yn cyflwyno papur i KP.

## 10. Diweddariadau:

1. Adroddodd LJ fod presenoldeb da yn PYCAG y diwrnod cynt gyda thri ar ddeg o aelodau. Amlinellodd yr eitemau ar yr agenda.

2. REC – Adroddodd RL fod y Cyngor wedi ymateb i'r Papur Gwyn. Dywedodd fod diddordeb parhaus gan y Llywodraeth a San Steffan yn Adroddiad y Comisiwn ar Addysg Grefyddol ond nad oes dim yn digwydd ar hyn o bryd.

Bydd etholiadau i aelodau'r bwrdd ymuno â'r REC yn digwydd ar 16 Mai. Mae dwy sedd ar gael. Mae enwebiadau'n gymwys gan gynrychiolwyr awdurdodedig ac mae angen eu derbyn fis ymlaen llaw. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd o 1 Medi, 2019.

Tania, Paula a Gill yw cynrychiolwyr enwebedig CCYSAGauC ar y REC.

3. Cynhadledd EFTRE Dulyn

Adroddodd GV y bydd Cynhadledd y Fforwm Ewropeaidd i Athrawon AG yn cael ei chynnal yn Nulyn ar 28 – 31 Awst, 2019 ac mae croeso i unrhyw un fynychu. Bydd GV yn mynd yno ar ran CCYSAGauC fel eu cynrychiolydd. Mae cynhadledd estyniad yn Belfast o 31 Awst – 2 Medi. Anfonwyd manylion at bob Clerc CYSAG.

4. MAGC

Mae Paul Morgan bellach yn mynychu CCYSAGauC yn lle Tudor Thomas. Mae dyfodol MAGC yn ansicr o ganlyniad i ddiffyg aelodau a hefyd cyllid. Cynhelir trafodaeth ym mis Ebrill a fydd yn edrych ar tybed a oes cyfle i ailadeiladu a chreu mudiad i'r rheiny sydd â diddordeb mewn AG ond nad ydynt yn gymwys i fynychu cyfarfodydd megis CCYSAGauC.

5. AREIAC 1 a 2 Gorffennaf

Adroddodd GV fod y Gymdeithas Cynghorwyr, Arolygwyr, ac Ymgynghorwyr AG yn cynnal ei chynhadledd haf yn y Village Hotel, Hyde, ger Manceinion ar 1 a 2 Gorffennaf. Teitl a thema'r gynhadledd yw *RE Leadership in a New World*. Gwahoddir pawb sydd â diddordeb mewn AG a dylent gysylltu â Gill Vaisey sydd yn trefnu'r gynhadledd.

**Gweithredu:** Anfonir y manylion i Glercod CYSAG.

**11. Gwefan CCYSAGauC**

Soniodd EE am y problemau sydd gan y wefan ar hyn o bryd a siaradodd am y posibilrwydd o gael gwefan newydd wedi'i chreu.

Gofynnodd EE i'r aelodau feddwl am yr hyn sydd ei angen ar wefan CCYSAGauC.

Adroddodd fod y Pwyllgor Gwaith wedi derbyn sawl pris am "becyn" ar gyfer adeiladu a chynnal gwefan newydd. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i argymell i'r cyfarfod llawn eu bod yn derbyn pris o £1100 am "adeiladu a chontract tair blynedd". Amlinellodd yr hyn oedd yn gynwysedig yn y cynnig hwn.

Yn ei rôl fel swyddog y wefan ar ran y Pwyllgor Gwaith, mae KR wedi ymchwilio i'r gwahanol bosibiliadau ac mae'r uchod yn fanteisiol o ran costau.

**Gweithredu:** Cytunodd yr aelodau i gefnogi creu gwefan newydd.

**12. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd 6 Chwefror 2019**

Rhoddodd EE adroddiad llafar o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith, roedd y rhan fwyaf o'r pwyntiau eisoes wedi cael eu trafod yn y cyfarfod hwn.

**13. Y CYSAG effeithiol**

Cyfeiriodd PW at gyflwyniad o'r gorffennol oedd wedi'i seilio ar wneud CYSAG effeithiol ac awgrymodd y dylem ddychwelyd at hwn eto. Mae CYSAG Caerffili yn bwriadu cyfethol dau aelod ieuenctid er mwyn clywed llais y disgyblion. Dyma un enghraifft o arfer da y gellid ei rannu.

**Gweithredu:** Rhoi hwn ar agenda cyfarfod yn y dyfodol - hydref 2019.

**14. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Llanilltud Fawr ar 20 Tachwedd 2018**

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod yn amodol ar y canlynol:
Ychwanegu Huw Stevens at y rhai oedd yn bresennol. Cywiro sillafu - Helen Bebb
Tudalen 16 cywiro sillafu - Alwen Roberts, Ceredigion.

## 15. Materion yn codi

Dim

## 16. Gohebiaeth

Etholiadau REC
Taflen cynhadledd EFTRE
Rhwydwaith Rhyng-ffydd yn sôn am ymosodiad Seland Newydd
CYSAG Bro Morgannwg yn gofyn a allai dau athro rannu sedd ar y pwyllgor gwaith a mynychu cyfarfodydd yn eu tro. Yn dilyn trafodaeth, nodwyd nad oes dim yng Nghyfansoddiad CCYSAGauC a fyddai'n atal trefniant o'r fath ac felly cytunwyd i dderbyn y cynnig hwn.

## 17. Dangos a dweud

Nis trafodwyd.

## 18. Unrhyw fater arall

Dywedodd EE wrth yr aelodau am achos a ddigwyddodd cyn dechrau'r cyfarfod. Roedd aelod o'r cyhoedd (a oedd wedi bod ar bwyllgor CYSAG o'r blaen ond ddim mwyach yn aelod o'r pwyllgor hwnnw) wedi cyrraedd Neuadd y Sir yn disgwyl dod i gyfarfod CCYSAGAuC. Dywedodd fod dau o'i chydweithwyr yn y Cyngor Sir oedd yn eistedd ar GYSAG Sir Fynwy wedi gofyn iddi eu cynrychioli nhw gan na allent fod yn bresennol. Dywedwyd wrthi nad yw cyfarfodydd CCYSAGauC yn agored i'r cyhoedd ac felly nid oedd hawl ganddi i fod yn bresennol. Dywedodd yr unigolyn dan sylw y byddai'n gwneud cwyn yn erbyn EE a PW, y ddau oedd wedi esbonio nad oedd ganddi hawl i fynychu cyfarfod CCYSAGauC.

Dywedodd EE wrth yr aelodau ei bod yn amhriodol i aelodau CYSAG weithredu fel unigolion ac yn yr achos hwn, roedd gofyn i rywun nad yw'n aelod o'u CYSAG gymryd eu lle, yn anghywir. Atgoffodd EE yr aelodau, pan maent yn mynychu CCYSAGauC, eu bod yn gwneud hynny fel cynrychiolwyr eu CYSAG nhw ac nid fel unigolion.

Mynegodd yr aelodau a oedd yn bresennol eu cefnogaeth lawn i'r cyngor a roddwyd i'r unigolyn dan sylw gan EE a PW. Roedden nhw hefyd yn cytuno'n llwyr fod aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC yn cynrychioli eu CYSAG ac nid nhw'u hunain.

## 19. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Haf 2019 – Conwy 28 Mehefin 2019

Diolchodd EE i bawb oedd wedi cymryd rhan yn y cyfarfod gyda diolch arbennig i:

Arglwydd Faer Caerdydd; Cyng Sarah Merry, Cadeirydd CYSAG Caerdydd; Louise Broom, Clerc, CYSAG Caerdydd; Maggie Turford, Cymorth Proffesiynol i GYSAG Caerdydd: Nicky Hagendyk, Cyflwynydd, Arweinydd Rhanbarthol EAS dros Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau; Alaw Hughes, Cyfieithydd; aelodau CYSAG Caerdydd a'r Cynghorwyr Sir.

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru

WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Wales Association of SACREs meeting, at Cardiff County Hall***
***Tuesday, 26th March 2019***
**10.30a.m. – 3.00p.m.**

**Attendance**

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Rheinallt Thomas | **Sir y Fflint / *Flintshire*** | **Abertawe / *Swansea***<br>Jennifer Harding -Richard (JHT)<br>Alison Lewis (AL) |
| **Blaenau Gwent**<br>Paula Webber (PW)<br>Kathy Riddick (KD) | **Gwynedd** | **Torfaen**<br>Paula Webber (PW) |
| **Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward J. Evans (EE)<br>Maggie Turford (MT)<br>Alice Parry (AP) | **Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Maggie Turford (MT)<br>Ernie Goldsworthy (EG) | **Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Maggie Turford (MT)<br>Ramez Delpak (RD) |
| **Caerffili/ *Caerphilly***<br>Paula Webber (PW)<br>Janet Jones (JJ) | **Sir Fynwy / *Monmouthshire* Sir**<br>Paula Webber (PW) | **Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones (LJ)<br>Tania ap Sion (TaS) |
| **Caerdydd / *Cardiff***<br>Maggie Turford (MT)<br>Gill James (GJ)<br>Norma Mackai | **Castell-nedd Port Talbot /*Neath and Port Talbot***<br>Hugh James (HJ)<br>Rachel Samuel (RS)<br>Peter Rees (PR) | **Sylwedyddion / *Observers***<br>Rudolf Elliot Lockhart, REC<br>Paul Morgan, MAGC<br>Andrew Pearce, WJEC |
| **Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Helen Gibbon (HG) | **Casnewydd / *Newport***<br>Paula Webber (PW)<br>Huw Stephens (HS) | **Cyflwynwyr/*Presenters***<br>Nicky Hagendyk, EAS |
| **Ceredigion** | **Sir Benfro / *Pembrokeshire*** | **Minutes**<br>Gill Vaisey (GV) |
| **Conwy** | **Powys**<br>John Mitson (JM)<br>Sian Fielding (SF) | |
| **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Ellie Chard (EC) | **Rhondda Cynon Taf**<br>Maggie Turford (MT)<br>Mathew Maidment (MM) | |

**Minutes of the meeting**

## 1. Introduction and welcome

Prior to the meeting members enjoyed a PowerPoint slide show from Moorland Primary School, Cardiff showing photographs of aspects of their good practice.

Cllr Dianne Rees, Lord Mayor of Cardiff welcomed everyone to County Hall, Cardiff and to the Local Authority. She referred to all that Cardiff has to celebrate and to her involvement as a former Cardiff SACRE member.

Chair of Cardiff SACRE, Cllr Sarah Merry, also welcomed members to Cardiff. She talked about her experience of being a member of SACRE as a County Councillor and the initial uncertainty of knowing what SACRE is about. However, in her experience, she has realised the importance of religious education and that SACREs should be meaningful in supporting children from many different religions and none within the community.

## 2. Quiet reflection

EE shared thoughts about being of faith or no faith and being appalled at the situation in New Zealand – the inhumanity of someone's actions towards a group of other people.

He referred to 50 Five-Minute Tales – stories he has used in Collective Worship in schools.

The Goblin and the Fairy – a shy goblin who had big ears and whom the fairy laughed at. However, the goblin showed her great kindness. The purpose of the story was to show that people should not be judged by outward appearance, or simply because they are difference, e.g. colour, looks, beliefs, politics, etc., but to recognise each other as human beings.

EE invited members to reflect on creating a better world in which to live.

## 3. Apologies

Apologies were received from Meirig Roberts (Welsh Government), Cllr Lacey (Newport SACRE), Cllr Lyndon Lloyd (Ceredigion), Vicky Barlow (Flintshire), Michelle Gosney (Estyn)and Tudor Thomas (who has resigned as chair of REMW but is still a member of MCC SACRE).

## 4. NAPfRE presentation: Nicky Hagendyk – The Humanities Area of Learning and Experience

Nicky Hagendyk is Chair of the Humanities Area of Learning and Experience.

She talked about the wider reforms alongside the curriculum reform. She emphasised experience as being an important aspect of this new curriculum, it being a process backed up by the Four Purposes that should be fulfilled by the end of schooling.

She highlighted the new curriculum subjects within the new humanities AoLE – business studies and social studies.   Practitioners are at the heart of writing the new curriculum and they have adopted a holistic approach with 'What Matters' statements at its core.

They are trying to achieve a balance between an interdisciplinary holistic approach whilst retaining the integrity of each specialist subject.

The new curriculum is likely to be less prescription and offer more autonomy for schools. Concepts, knowledge and skills will be behind the Four Purposes.

It will be published in April 2019 for feedback from teachers and other stakeholders.  The content of the 'What Matters' will be part of the consultation.   Nicky talked through each of the five statements of What Matters in Humanities.

1. Developing an enquiring mind enables learners to explore and investigate the world, past, present and future, for themselves.

2. Events and human experiences are complex and are perceived, interpreted and represented in different ways.

3. Our natural world is diverse and dynamic, influenced by physical processes and human actions.

4. Human societies are complex and diverse and areas shaped by human action and beliefs.

5. Informed self-aware citizens engage with the challenges and opportunities that face humanity and are able to take considered ethical and sustainable actions.

Each statement is not to be seen in isolation – a unit of work might be linked with two or three of the statements.

All of the subjects within humanities can be explored through any of the What Matters statements.

Central to the curriculum is progression in terms of knowledge, conceptual understanding, ability to work with sources, etc.

There has been expert input and consultation nationally and internationally.

The curriculum is to be published on 30th April for consultation and feedback.  The time frame for the consultation will be from April 30th until the beginning of September.

In response to questions raised, Nicky advised that teachers from all across Wales have been involved in the writing of the wider curriculum and will also be in the writing of the RE Framework.

The curriculum in England has also been considered alongside curricular from a variety of other countries.

Members queried how the cost is being met for introducing these changes in schools.  A member suggested that WG must put the finances in place to fully back the implementation of the new curriculum.

The final will be published in January 2020 and therefore training would follow once the curriculum has been agreed and finalised.

Need to consider how WASACRE will manage its feedback on the consultation. Should the Executive respond on behalf of WASACRE or should a WASACRE members' working group be established?

**Action:** The Executive to compose a response to the draft on behalf of WASACRE

**5. Withdrawal from RE Survey**

PW referred to the results of the withdrawal from RE questionnaire and looked at the findings.

This information might inform discussions and the WASACRE response to the WG White Paper question of whether the right of withdrawal should be removed.

GV reported that she had been concerned about a few of the findings of the survey.
Firstly, that it suggests that some schools still do not make the distinction between Collective Worship and RE. The survey had specifically referred to curriculum RE only and yet some responses referred to Collective Worship.
In addition, there was evidence of a lack of understanding of the correct nature of curriculum Religious Education as in some cases responses referred to the withdrawal of pupils from prayers and singing hymns and also visiting a church to take part in celebrations – none of which should be occurring in curriculum-based RE.
GV also stated her concern about the number of parents (12) partially withdrawing their pupils from learning about Islam. This seems to suggest a prejudice against that particular religion.
HS suggested that it is essential that when the new curriculum is drawn up it promotes objective, critical and pluralistic RE to ensure that parents do not feel the need to withdraw their children.

RL shared his insights regarding a possible legal challenge – if someone who is from a faith has been involved in the curriculum development then it would be deemed that that curriculum cannot be objective. Likewise, if a teacher has a faith background, it could be suggested that they are not able to be objective in their teaching.

**Action:** suggest to SACREs that they look at their local findings from the withdrawal survey and take any appropriate action.
(GV advised that some SACREs had collated their own results whereas others had sent in individual school responses in which case collation had been done by herself and details will be sent to those SACREs).

**6. To consider and respond to the Welsh Government white paper**

EE talked through the paper and its proposals.

The WASACRE Executive response was tabled and shared with members. It was noted that they had not come to a conclusion about the removal of the right of withdrawal from RE.

The NAPRE response was tabled and shared with members. LJ noted that the NAPfRE response differs in some areas to the WASACRE response in that NAPfRE would want the right of withdrawal to be removed but reiterates the need therefore for training to be put in place to ensure all teachers and schools ensure objectivity in their teaching and provision.

NAPfRE also suggests that sixth form RE should be retained and colleges should also be subject to providing RE.

HS also suggests that 16 – 19 year olds need to have religious education in light of current world issues and attitudes.

KR suggested that if teachers are teaching purely educationally objective RE then there is no need for the right of withdrawal however, where there is faith based denominational RE then there is a need for the right of withdrawal.

PW suggested that we need to ensure that the provision is as it should be and then there is no reason for a right of withdrawal.

GV noted that we need to make a distinction from Agreed Syllabus RE and faith denominational RE and supports the point made by KR.

It was suggested that we need to take the stance that we assume and expect that RE will be taught appropriately and reinforce this expectation.

RT has made his own response which is closer to the NAPfRE view than the WASACRE view and believes that we must ensure that RE is appropriate for all and we need confidence in our teachers to teach the subject in a professional way. He also agrees with the need for sixth form students to receive RE.

HS reiterated the need to challenge LAs on the lack of professional advisory services to support RE.

RL highlighted that the point that concerns him is the European Convention of Human Rights and he thinks there has never been a case where it is found that the RE is objective and pluralistic and therefore if the right of withdrawal is withdrawn this could lead to a succession of cases taken to court.

As a ‘straw poll’ (not an official vote on behalf of SACREs), there was a unanimous show of hands from people in the room in favour of the right of withdrawal being removed.

There was also unanimous support for making RE statutory for nursery children from the age of 3.

The removal of Sixth form RE received a mixed response.

WASACRE extended its thanks to both the WASACRE executive members and NAPfRE members for submitting their responses.

Action: PW to send an additional response to Welsh Government endorsing the response made by the Executive and adding further comments on the views of those present at the meeting.

## 7. Update on the RE Supporting Framework

LJ reported that WG has fully funded a group to hold regular meetings to develop a Supporting Framework to sit alongside the new curriculum. The group is made up of RE teachers, teachers from Pioneer Schools, NAPfRE members, WASACRE, REC, WJEC, and Estyn representing all areas of Wales and all age ranges and Welsh and English medium.

As it is not yet known whether the right of withdrawal will be removed, the Framework needs to be written so that RE is clearly identifiable.

It is hoped that a draft will be published by January 2020. It needs to ready by July in order to go through translation and initial consultation.

PW reported on the thinking behind the production of the RE Framework and what it might look like as an addition to the curriculum What Matters statements. This Framework might then be adopted by each LA as their Agreed Syllabus.

RT suggested that the RE Framework must be written in a way that it is accessible to non-educationalists and will be accepted and adopted by Agreed Syllabus Conferences.

## 8. Professional RE support for SACREs

EE reported that a response had now been received from Kirsty Williams in respect of the letter WASACRE had sent to her regarding Professional Support for RE and the revision of Circular 10/94. In her response KW outlined the arrangements that had been put in place for meetings between WASACRE officers and WG personnel and that, together with her officials, she was considering matters relating to 10/94.

LJ reported on the crisis situation in relation to the lack of specialist support for RE to SACREs since five specialists within a short time period had been removed for their posts. It was noted that only LJ and PW remain as RE specialist advisers.

LJ reminded members that NAPfRE and WASACRE had written to Directors of Education to request information in relation to who provides their professional support to SACREs.

Responses varied as per the minutes of the last meeting. LJ and PW met with all 22 Directors of Education and reminded them about their legal duties in relation to RE and SACREs and alerted them to the varied specialist support across Wales. They highlighted that the inconsistency of specialist support is not fair as it has an impact on the pupils who are at the end of the process. They highlighted the need for professional learning support and therefore there needs to be specialist RE support to LAs and SACREs.

They also presented the roles and responsibilities / example job description of a SACRE adviser to ensure the Directors realise the extent of the role and that for instance, a teacher with a full time position cannot possibly take on this additional work.

The Directors were asked to investigate and establish who is providing support - whether it is the LA or the Consortium. They need to consider having specialist RE advisers to support their SACREs. All 22 directors were willing to engage in the conversation with LJ and PW and / or take this back to their consortia.

RT highlighted that there are RE specialists available but they are not being deployed by LAs to support RE and SACREs e.g. Bethan James and Phil Lord in GWE and Cary Thomas in CSC plus Gill Vaisey as an independent consultant.

**Action:** LJ and PW to continue to dialogue with Directors and feedback to WASACRE.

**9. Professional Learning for RE**

PW and LJ attended a meeting with Kevin Palmer to discuss the professional learning support needed in light of RE and the new curriculum. They have been invited to produce a document outlining the areas of training required to support the implementation of the new curriculum. NAPfRE will be considering this and presenting a paper to KP.

**10. Up-dates:**

1. LJ reported that NAPfRE was well attended yesterday with thirteen members. She outlined the items of their agenda.

2. REC – RL reported that the REC had responded to the White Paper. He advised that there is continued interest from Government and Westminster in the Commission on RE Report but no action is being taken at present.

Elections for board members to join the REC will take place on May 16th. There are two seats available. Nominations are eligible from authorised representatives and need to be received a month in advance. Successful candidates will serve a three-year term from 1st September, 2019

Tania, Paula and Gill are WASACRE nominated representatives on the REC.

3. EFTRE conference Dublin

GV reported that the European Forum for Teachers of RE Conference will take place in Dublin on 28th - 31st August, 2019 and anyone is welcome to attend. GV will be attending on behalf of WASACRE as their representative. There is an extension conference in Belfast from 31st – 2nd September. Details have been sent to all SACRE Clerks.

4. REMW

Paul Morgan is now attending WASACRE replacing Tudor Thomas. The future of REMW is unclear due to being short of membership and also funding. Discussion will be held in April which will focus on whether there may be an opportunity to rebuild and create an organisation for those interested in RE but who are not eligible to attend meetings such as WASACRE.

5. AREIAC 1st and 2nd July

GV reported that the Association of RE Advisers, Inspectors, and Consultants is holding its summer conference at the Village Hotel, Hyde, near Manchester on 1st and 2nd July. The title and theme is RE Leadership In A New World. Everyone interested in RE is invited and should contact Gill Vaisey who is conference organiser.

**Action:** Details will be sent to SACRE Clerks.

**11. WASACRE Website**

EE highlighted the issues surrounding the current website and talked about the possibility of having a new website created.

EE asked the members to reflect on what is required of the WASACRE website.

He reported that the Executive had received several suggested costed “packages” for the building and supporting of a new web site. The Exec had agreed to recommend to the full meeting that a quote of £1100 for a “build and three year contract” be accepted. He out lined what was included in this offer.

KR in her Exec role as website officer, has investigated various possibilities and the above is favourable in terms of costs.

**Action:** Members agreed to support the creation of a new website. **12. Report of the Executive Committee Meeting held 6th February 2019**

EE gave a verbal report of the Executive meeting, much of which had been already covered in this meeting.

**13. The Effective SACRE**

PW referred to a past presentation based on making an effective SACRE and suggested that this is something to which we should return. Caerphilly SACRE is going to co-opt two youth members to hear pupil voices. This is one example of good practice that could be shared.

**Action:** Agenda this for a future meeting – autumn 2019.

**14. Minutes of meeting held in Llantwit Major on 20 November 2018**

The minutes were accepted as a true record of the meeting subject to the following:
Add Huw Stevens to attendance. Correction to spelling - Helen Bebb
Page 16 correction to spelling - Alwen Roberts, Ceredigion.

**15. Matters arising**

None

## 16. Correspondence

REC Elections
EFTRE flyer for conference
Interfaith Network regarding New Zealand attack
Vale of Glamorgan SACRE asking whether two teachers could job share an executive committee position and take turns to attend meetings. Following discussion, it was noted that there is nothing in WASACRE's Constitution that would preclude such an arrangement and so it was agreed to accept this proposal.

## 17. Show and tell

Not covered.

## 18. Any other business

**AOB.** EE advised members of an incident that had occurred prior to the start of the meeting. A member of the public (who had previously been on a SACRE committee but is no longer a serving member of that committee) had arrived at County Hall wanting to attend the WASACRE meeting. She stated that two of her County Council colleagues who sat on Monmouthshire SACRE had asked her to represent them as they could not attend. She was informed that WASACRE meetings are not open to the public and therefore she was not entitled to attend. The person concerned stated that she was going to lodge a complaint against EE and PW who had both explained that she was not entitled to attend the WASACRE meeting.

EE advised members present that it is improper for SACRE members to act as individuals and in this case to have asked someone who is not a member of their SACRE to stand in for them was not permissible. EE reminded members that when they attend WASACRE they do so as representatives of their respective SACRE and not as individuals.

Members present expressed their full support for the advice that EE and PW gave to the person in question. They also fully agreed that members attending WASACRE meetings represent their SACREs and not themselves.

## 19. Date for next meeting: Summer 2019 – Conwy 28th June 2019

EE gave thanks to all involved in the meeting with special thanks to:

The Lord Mayor of Cardiff; Cllr Sarah Merry, Chair Cardiff SACRE; Louise Broom, Clerk, Cardiff SACRE; Maggie Turford, Professional Support to Cardiff SACRE: Nicky Hagendyk, Presenter, EAS Regional Lead for the Humanities AoLE; Alaw Hughes, Translator; Cardiff SACRE members and County Councillors.